# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 443 | Gorffennaf 2023 | Pris £1


# YSGOL HAFODWENOG YN DATHLU HANNER CAN MLWYDDIANT

Cawsom ddiwrnod agored i ddathlu hanner can mlwyddiant ysgol Hafodwenog. Braf oedd croesawu cyn ddisgyblion, staff a'r gymuned gyfan i'r ysgol i gymdeithasu a hel atgofion. Roedd arddangosfa o hen luniau a'r llyfr log o'r diwrnod cyntaf yn ôl yn Medi 1972.

Bu'r disgyblion yn dawnsio a chanu i'r gynulleidfa cyn cael ychydig o eiriau gan Dr Carol James, Pennaeth, a'r Cynghorydd Jean Lewis, Cadeirydd y Llywodraethwyr. Diolch i Mr Gerwyn Jones a Mrs Siw Jones am eu presenoldeb ac am eu geiriau caredig a'r storïau am y dyddiau da yn Hafodwenog.

Fe ddaeth y Pennaeth a'r cyn Benaethiaid at eu gilydd i dorri'r gacen arbennig gan Mrs Buddug Thomas. Diolch yn fawr i Buddug am y gacen hyfryd.

Roedd y plant wedi mwynhau yn ystod y prynhawn gyda OT Coaching yn gwneud sgiliau chwaraeon a'r plant lleiaf gyda Siani Sionc. Diolch i'r Gymdeithas Rieni am drefnu'r bwyd yn ystod y dydd.

Diwrnod braf o gymdeithasu yn y gymuned mewn ysgol arbennig, Ysgol Hafodwenog.



Dr Carol James, Pennaeth yn annerch y gynulleidfa



Yn y llun gwelir y Cyng. Jean Lewis, Cadeirydd y Llywodraethwyr; Mrs Siw Jones a Mr Gerwyn Jones, Cyn Benaethiaid a Dr Carol James, Pennaeth.




## Llwyddiant Jessica Robinson



Llongyfarchiadau mawr i Jessica Robinson ar gyrraedd rownd derfynol Canwr y Byd Caerdydd 2023 – y Gymraes gyntaf i wneud hyn ers 38 mlynedd.

Rydym fel ardal yn ymfalchio yn ei llwyddiant ac yn dymuno'n dda iddi i'r dyfodol, yn sicr mae dyfodol disglair o'i blaen.

Dyma englyn gwych o eiddo Wyn Owens i'w chyfarch :-

Yn unol â'th bersonoliaeth - go fwyn,<br>
Gyfuwch â'r gerddoriaeth<br>
Fu'r nodau 'n ddi-au fe ddaeth<br>
Dy alaw'n ysbrydoliaeth.

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **i'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com


Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Yn ddiweddar, wedi brwydr ddewr, collom ein cymdoges, Mair Roche, a roddodd groeso twymgalon i ni pan symudom i Sanclêr o Gaerdydd 18 mlynedd yn ôl. Dyw pawb ddim yn adnabod eu cymdogion, ac mae'r straeon am bicio drws nesa i fenthyg siwgwr yn ddieithr iawn i nifer bellach. Felly rydym ni fel teulu yn ffodus iawn ein bod wedi bod yng nghanol cymdogion cymwynasgar a chefnogol, ac yn dal i fod.

Roedd Mair yn llawn straeon difyr ac yn wir, hi ddywedodd wrthai fod Twm Carnabwth a'i gyfeillion o bosib wedi bod yn yfed yn ein cartref ni a bod yr adeilad yn bur debyg yn dafarn yn ystod gwrthryfel Merched Beca. Ac yn sicr, mae arwyddion yn ein hystafelloedd fod y safle wedi bod yn dafarn ar un adeg.



Roedd gan Mair lyfrau Cymraeg difyr a roddodd i'n bechgyn, yn ogystal â set o ddrymiau! Roedd hi hefyd yn mwynhau gwaith crefft a bob Noswyl Dolig, byddai carden Nadolig gywrain yn cael ei phostio drwy'r drws, gyda sawl haen iddi wedi ei gwneud gan Mair. Roedden nhw'n wledd i'r llygaid ac ôl oriau o waith arnyn nhw. Bu hefyd yn darparu arwyddion "Gwyliwch y ci!" wedi eu lamineiddio ar gyfer ein giat, ac roedd hi'n meddwl y byd o gŵn a chathod.

Fel cymdoges arall, Eilir Davies a gollom bum mlynedd yn ôl bellach, roedd Mair wedi ei magu yn y cyffiniau, ac felly yn medru adrodd straeon di-ri am y fro a'r gymuned hon. Roedd gan Eilir stôr o wybodaeth am hanes amaethyddol ein cartref ni a'r ardal gyfagos, ac mae dod yn gyfarwydd â hanes y tir a'r pridd nid yn unig yn ddifyr ond yn dynodi'r seiliau sydd o'n hamgylch ni. Ac mae geiriau iasol Gerallt Lloyd Owen, yn ei gerdd Etifeddiaeth, yn dod i'r cof am 'anadlu ein hanes ni ein hunain', o genhedlaeth i genhedlaeth – "y darn o dir yn dyst ein bod wedi mynnu byw." Ac i mi yn bersonol, mae hynny yr un mor bwysig pan yn bwrw gwreiddiau mewn ardal a chymdogaeth newydd, fel y gwnaethom ni 18 mlynedd yn ôl.

Er nad oedd Eilir yn yr iechyd gorau, rydw i'n cofio iddi addurno a chlymu balwns coch gwyn a gwyrdd ar ein giat ar ôl i'r bechgyn ddychwelyd o Eisteddfod yr Urdd un flwyddyn – y gweithredoedd bychain hynny a oedd yn golygu gymaint.

Wedi oriau ac oriau o sgwrsio, yr hyn sy'n rhwystredig ydy nad yw'r straeon hynny wedi eu cofnodi, ac ar gof a chadw gen i. A dirywio mae'r cof, nid gwella yn anffodus! Ond heb gymdogion o'r fath, mae'n bur debyg y byddai fy ymwybyddiaeth o'r ardal o'm hamgylch dipyn tlotach

Rydw i hefyd yn cofio'r wên anferthol ar wyneb y ddiweddar "Misus Tomos drws nesaf" pan symudom i mewn gyda'n bocsys wrth iddi sylweddoli ein bod yn deulu ifanc a oedd yn siarad Cymraeg. Ac yna ei chwerthiniad pan eglurom nad oedd gennym amser i ddad-bacio am fod angen i ni ruthro i'r Eisteddfod, a hithau'n wythnos gyntaf Awst !

Wrth symud i gartref newydd, mae'r seiliau eisoes wedi eu gosod, a hynny ers 1750 yn hanes ein cartref ni. Ond mae haenau ar ben haenau o hanesion ac atgofion yn cael eu plethu'n gywrain dros y sylfaeni hynny wrth i berchnogion newydd ymgartrefu ar yr aelwyd, union yr un fath â cherdiau Nadolig haenog a chywrain Mair Brynawelon.

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies
01437 563319
mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
(Newyddion Tabernacl) Y Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parch. Guto Llywelyn*

Beth yw eich hoff frawddeg yn y Beibl ?

Fy hoff frawddeg yw cyngor Iesu i ni ar faddeuant pan ddywed "0s bydd gennych rywbeth yn erbyn unrhyw un, maddeuwch iddo, er mwyn i'ch Tad sydd yn y nefoedd faddau i chwithau eich camweddau." (Marc 11, 25).

Maddau popeth i bob un! Waw, mae hynny yn gofyn llawer. Fel byddai'r chwaraewr tenis John McEnroe yn arfer ei ddweud "You can not be serious!".

Ond roedd Iesu yn hollol o ddifrif wrth ofyn i ni geisio maddau popeth i bob un. A pham roedd yn gofyn i ni wneud hyn ? Am fod angen i ni faddau popeth i bawb er lles ein hunain.

Dicter, neu 'resentment' yn Saesneg, yw'r peth gwaethaf yn y byd i atal ein datblygiad ysbrydol ni gyd. Mae dicter fel asid yn ein dinistrio ni y tu fewn.

A sut y gellir cael gwared ar y dicter yma a sut y gellir 'maddau popeth i bob un' ? Nid yw yn bosibl heb help Duw. Os ydym yn teimlo yn ddig at rywun, y ffordd i gael gwared at y dicter yw trwy weddïo dros y person arall. Gweddïwch dros y person arall gan ddymuno bob iechyd, hapusrwydd a thawelwch meddwl iddynt. Gwnewch hyn bob dydd am bythefnos, hyd yn oed os nad ydych eisiau gwneud hyn ar y dechrau, ac o fewn pythefnos bydd y dicter wedi mynd.

A sut mae cyngor Iesu yn gweithio? Mae'n gweithio oherwydd nad yw yn bosibl gweddïo dros rywun a theimlo dicter atynt yr un pryd. Nid yw yn bosibl mynd a rhywun at Dduw yn ein gweddïau a casáu nhw'r un pryd. Dyna pam os ydym yn gweddïo dros rywun, y byddwn yn darganfod fod y dicter oedd yn arfer bod gyda ni atynt, bellach wedi diflannu.

Ac nid yw'n ddigon gwybod hyn wrth gwrs. Mae'n rhaid i ni ei roi ar waith yn ein bywydau bob dydd a gwneud hynny bob tro y byddwn yn teimlo dicter at rywun.
Felly cofiwn am eiriau Iesu i faddau popeth i bob un ac anelwn am hyn yn ein bywydau ni.

## Casgliad Cymorth Cristnogol Cylch Beca

Diolch yn fawr i gyfranwyr Cylch Beca am eu cydweithrediad a'u cyfraniadau i Gymorth Cristnogol 2023. Dyma restr o'r rhoddion derbyniwyd oddi wrth y capeli ac unigolion.

*Capeli / Eglwysi / Unigolion*

| | |
|---|---|
| Bethesda Llawhaden | £25.00 |
| Blaenconin | £100.00 |
| Calfaria Login | £150.00 |
| Cefn y Pant | £100.00 |
| Cymdeithas Bro Cerwyn | £500.00 |
| Eglwys Dewi Sant Clunderwen | £35.00 |
| Eglwys Tysilio Sant Llandysilio | £5.00 |
| Glandŵr | £75.00 |
| Hebron | £25.00 |
| Horeb | £50.00 |
| Nebo | £70,00 |
| Pisga Llandysilio | £150.00 |
| Rhydwilym | £150.00 |
| Seilo | £50.00 |
| **Unigolion** | |
| Ann a Kenvin Morris | £50.00 |
| Eirianwen a Ken Thomas | £50.00 |
| **CYFANSWM** | **£1,585.00** |

# I'ch diddori - *gan John Arfon*

Enaid ar dân oedd Robert Humphreys y gweinidog Wesla yn ôl E. Tegla Davies. Teithiodd filoedd o filltiroedd ar droed i bregethu. Wrth symud o Lanidloes i Fiwmares, cerddodd yr holl ffordd, a'i wraig a'r plant yn teithio mewn trol. Pan gyrhaeddasant Bangor dywedwyd wrthynt na allent fynd i Fiwmares, fod y colera yno, a bod trefniant wedi ei wneud iddynt aros ar fferm ym Môn nes bod yr aflwydd wedi mynd heibio. Aeth Robert Humphreys a'i deulu i'r fferm ac yna aeth ef ymlaen i Fiwmares. Pregethodd yno ddwywaith y Sul, pregethodd yno nos Lun, cynhaliodd gyfarfod gweddi am bump fore Mawrth a nos Fawrth bu farw o'r colera.

---

Amcangyfrifwyd bod dwy filiwn o bryfed copyn ar erw o dir heblaw miloedd o drychfilod a llyngyr na chifrifwyd mohonynt, a gall nyth morgrug gynnwys can mil.

---

Pan ydych chwi'n gwneud hwyl am ben rhywbeth…. dyma eich ofn chwi. Yr ydym oll yn y gwter, ond mae rhai ohonom yn edrych ar y sêr.

---

Rhaid i'r Iaith barhau i fod yn iaith lenyddol os yw am oroesi a byw, os yn wahanol bydd lledeiniad addysg yn ei difrodi. (T. S. Eliot)

---

**Mewn Cydymdeimlad**

Wedi cystudd hir ac wythnosau yn Ysbyty Glangwili, trist iawn oeddwn i glywed am farwolaeth Brian Evans, Briona, Heol y Gogledd Hendygwyn yn ddiweddar. Cafodd ei eni yn Llandysilio ond wedi colli ei fam a'i dad pan oedd yn ifanc iawn, cafodd gartref a magwraeth dda iawn gan dylwyth caredig yn Llanfallteg.

Yn gynnar yn ei fywyd bu'n gweithio i Tom Tweed, yna Pauls, ac oddi yno i Hufenfa Hendygwyn, lle eisteddodd ei arholiadau Cymorth Cynta. Fe ymunodd â chriw ambiwlans Hendygwyn a bu'n baramedig gyda GIG yma yn yr Hendygwyn am bron i 30 mlynedd. Roedd Brian yn ddyn caredig a chymwynasgar a phob amser yn barod ac yn falch i helpu unrhyw un, a chael sgwrs gyda hwy. Roedd ei gyd-weithwyr yn meddwl yn uchel iawn ohono. Estynnwn ei cydymdeimlad dwysaf i'w briod Eilona a'i holl deulu.

---

Sioc fawr i'r holl ardal oedd clywed am farwolaeth brawychus o sydyn Glyn Jones, New House Farm, Ludchurch yn ddiweddar yn 59 oed o drawiad y galon.

Fe ddechreuodd ei frawd David ac ef gwmni dŵr ffynnon Prince's Gate tua 30 mlynedd yn ôl. Cafwyd llwyddiant arbennig yn y fenter a daeth y cwmni yn enwog drwy'r byd. Penderfynwyd yn 2018 i werthu'r busnes i gwmni Nestle a oedd hefyd yn fyd enwog.

Yn dilyn hyn aeth Glyn i ffermio'n organig, gyda llwyddiant eto yn yr ardal. Cefais y fraint o ddysgu Glyn a'i chwaer Mary yn yr Ysgol Ramadeg yn Hendygwyn, ac yr oedd yn bleser eu cael yn y dosbarth. Roeddynt o hyd yn foneddigaidd, serchog, hoffus a chyfeillgar bob amser.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eira a'r plant , ac i David a Mary a'u teuluoedd oll. Byddwn yn meddwl amdanoch yn eich colled a'ch galar.

---

**Dyma atebion y Cwrosw a'r Chwilrif Mis Mai**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | O | X | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | O | X | O | X |
| O | X | O | O | X | X |
| X | O | X | X | O | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 5 | 1 | 8 | 3 | 7 | 2 | 4 | 9 |
| 8 | 2 | 4 | 9 | 6 | 5 | 1 | 3 | 7 |
| 3 | 7 | 9 | 4 | 1 | 2 | 5 | 8 | 6 |
| 5 | 1 | 3 | 7 | 2 | 8 | 6 | 9 | 4 |
| 4 | 9 | 8 | 6 | 5 | 3 | 7 | 1 | 2 |
| 2 | 6 | 7 | 1 | 9 | 4 | 8 | 5 | 3 |
| 9 | 4 | 2 | 5 | 8 | 6 | 3 | 7 | 1 |
| 7 | 8 | 6 | 3 | 4 | 1 | 9 | 2 | 5 |
| 1 | 3 | 5 | 2 | 7 | 9 | 4 | 6 | 8 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | | | X | | |
| | X | | | | |
| X | | X | | | X |
| | | | | X | |
| | | | X | | |
| | X | X | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | | | | | | | 5 | 4 |
| | | | 2 | | | 6 | | |
| | | | 8 | | | | 3 | 2 |
| | 5 | | | | | 4 | | |
| | | 9 | | 5 | 3 | | | 6 |
| | 3 | 8 | | | 4 | 9 | | |
| | 9 | 2 | | | 7 | | 8 | |
| 6 | | | | 2 | | | | |
| | | | 1 | | | | | |

**(a)** Y Croesair:

**Ar Draws**. 1.Ymprydio, 5.Sioc, 9. Bonyn, 10. Niferus, 11. Leah, 12. Gwladgar, 14. Ysgwyd, 15. Swmpus , 18. Teyrnasu, 20. Cnoc , 23. Melynwy, 24, Amryw 25. Oedi, 26. Cyfarfod.


**I Lawr.** 1. Ymbil, 2. Penwaig, 3, Ynni, 4. Ionawr, 6. Iorwg, 7. Cysurus, 8. Ofnadwy, 13. Dyfnant, 14. Ystumio, 15, Pentref, 17. Ysbyty, 19. Ymlid, 21. Cawod, 22. Bara.

**(b)** Y Pôs Mathemategol:
A = 36, B = 40, C = 42, a D = 41

---

O gam i gam yw cyntaf o'r posau y mis hwn. Mae pob ateb yn cynnwys pedair llythyren, gyda llythyren olaf y gair cyntaf yn dechrau yr ail air ac yn y blaen. Os atebwch y cliwiau yn hollol gywir, a'u rhoi i mewn yn y grid yn dilyn y trywydd, dylech gael enw dinas wrth ddarllen 8 ar draws . Yna cymerwch y llythrennau sydd yn y blychau llwyd a'u hail –drefnu i gael enw dinas arall.

*Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren.*



Dyma'r cliwiau


1. Bachgen
2. Cylchog
3. Mamgu y Gogs
4. Cri'r mul
5. Ordeinio
6. Brawychu
7. Bonheddwr
8. Lleferydd
9. Sŵn
10. Tywyllu
11. Buarth neu glôs
12. Dinistrio
13. Arbed
14. Sawr neu awch
15. Bloneg
16. Gadael

Dyma'r ail bôs i'ch diddori


Oddi tano a throsodd, fe welwch ddau grid croesair yn union yr un fath, ac oddi tan y rhai hynny cewch nifer o eiriau. Y pôs yw ceisio rhoi y geiriau hyn i gyd yn y ddau groesair.

Er mwyn eich helpu i gael dechreuad, rwyf wedi rhoi un llythyren o'r ateb i 14 ar draws yng nghroesaIr B.

A



**B**




**Dyma'r geiriau i lenwi y gridiau:**

**3 llythyren:** adda, mud, nôd. suo.
**4 llythyren:** adwy, agen, amos, atal, creu, dewi, emyn, enlli, fory, gwin, main, marw, moes, nwyd, odyn, tila, tail, urddo, ychen, ynys.
**5 llythyren:** gwent, hynod, llafur, oglau.
**6 llythyren:** casglu, eilradd, gwymon, llewygu, offeryn, salmau, swigod.

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'n amser i gael y Cardi Bach unwaith eto! Hyfryd yw gweld sawl un wedi ymaelodi oddi ar fis diwethaf.

Dyma'u henwau:-

Bob Elward, Tadil, Talacharn
Heulwen Elward, Tadil, Talacharn
Cathryn Elward, 18 Cae Gwyrdd, San Clêr
Telyn-Hâf Thomas, 18 Cae Gwyrdd, San Clêr
Ioan Thomas, 18 Cae Gwyrdd, San Clêr
Yvonne Griffiths-Rogers, 2 Penymorfa, Llangunnor
Olive Bowen, Lan-y-Groes, Penybont
William a Haulwen Davies, Y Stag, Llanboidy.
Ruth Meleri Davies, 23 Kirton Close, Radyr Way, Llandaf
Denzil Davies, Maes-yr-Onnen, Hen Dý Gwyn
Gwyneth Davies, Maes-yr-Onnen, Hen Dý Gwyn
Eirian Davies, Maes-yr-Onnen, Hen Dý Gwyn
Eric Adams, Richmore House, Rhiw'r Orsaf, San Clêr
Elinor Jameson, Cil y Barcud, Meidrim
Granville a Mary Davies, Angorfa, Llangynin
Eunice John, Dolawel, Gerddi'r Ffynnon, Hen Dý Gwyn
Mared a Heledd Williams, Bryneithin, Bryn Iwan.

**Llongyfarchiadau i enillwyr fis Mehefin:-**

£20 - 645 - Jim a Mair Davies, 14 Gors Fach, Pwll-Trap

£10 - 305 - Garej Wyn, San Clêr

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth i'r Clwb 200 ac i'r Cardi Bach. Cadwch yn ddiogel,

*Rhian*

Côr Meibion De Cymru yn cyflwyno

## CYNGERDD MAWREDDOG

yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy
Nos Sadwrn, 14eg Hydref 2023 am 7yh

Unawdwyr gwadd:
**Jessica Robinson a Trystan Llŷr Griffiths**

Tocynnau: **£15** / Plant 5-15 oed **£10**
ar gael wrth Gwynlais Phillips
07837 929393 / 01994 448333
neu Huw Davies 07583 853557
ebost: garethhuwdavies@msn.com
neu o wefan Côr Meibion De Cymru:
www.southwalesmalechoir.co.uk

*Elw tuag at Gronfa teulu Chris John a CMDC*

## AM DDIM

**Tŷ Gwydr**

yn mesur 8 troedfedd x 12 troedfedd
dim ond ei dynnu i lawr a'i glirio.
Ffoniwch 01994 241775 rhwng 6 a 7 y.h.
dydd Llun i ddydd Gwener.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth i chi ar gyfer mis Gorffennaf, Pob lwc i'r rhai sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod ym mis Awst, (dewch a'r gwobrau nôl) *Albie*

**1. GEIRFA: Oer / Poeth**

Oeri, oerfel, oergell, grasboeth, gynhesu/dwymo, gynhesrwydd, twymgalon

Cofiwch gadw'r llaeth yn yr ……………………………..

Mae hi'n ………………………..allan; cofia roi eli ar dy drwyn.

Cofiwch ail……………………'r cawl yn drwyadl cyn ei fwyta.

Cawson ni groeso ……………………..gan y bobl leol, chwarae teg iddyn nhw

Mae'r tywydd wedi ………………………'n ddiweddar.

Dewch i mewn, allan o'r ………………………i …………………y gegin.

**2. Gramadeg**
**'For'**
**i, ar, dros, er mwyn, ar gyfer, am**

Cyfieithwch:

I am going for a holiday.

I'm going to buy it for a pound.

They are going for a walk.

You can have it for tea.

We went for a meal.

I bought it for a friend.

Will you go to the shops for me?

I have bought a new suit for Christmas.

Ask for a present for a friend.

I'm doing it for the children.


ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## *Llywydd Anrhydeddus Cenedlaethol*



Jill Lewis, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, yn urddo Margarette Hughes, o gangen Hendygwyn yn Llywydd Anrhydeddus Cenedlaethol y Mudiad yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth. Llongyfarchiadau mawr oddi wrth aelodau'r mudiad ym mro'r Cardi Bach.

### Cangen Beca

Mae Merched y Wawr, Cangen Beca'n dathlu 50 mlynedd ym mis Hydref eleni. Byddwn yn dathlu drwy gael cinio yng Nghaffi Beca am 1 o'r gloch ar ddydd Iau, Hydref 12fed. Estynnwn groeso cynnes iawn i gyn aelodau ac unrhyw un arall fyddai'n dymuno bod yn rhan o'r dathliad. Bydd rhagor o fanylion yn rhifyn mis Medi. Credaf mai £11 fydd y pris am hwn.

### Cangen San Cler

Ymunodd Lilwen, Iona a Beti-Wyn â thaith Merched y Wawr i Sempringham ar ddiwedd Mehefin. Ymwelwyd â Chaerwrangon, Grantham a Stratford a dysgu llawer am y trefi yma. Uchafbwynt y daith oedd ymweld â'r gofeb i'r Dywysoges Gwenllian yn Sempringham a chael y wefr o glywed cerddi a chanu anthem Merched y Wawr a'n Hanthem Genedlaethol ger y gofeb. Cafwyd gwasanaeth byr yn yr eglwys gerllaw hefyd, chyfle i ganu gydag arddeliad rai emynau Cymraeg. Profiad bythgofiadwy! Braf oedd cael bod ar y daith a chyfarfod ag eraill, bysus llawn o'r Gogledd ac o'r De a'r Canolbarth a hyfryd oedd cael cwmni Jill Lewis, ein Llywydd Cenedlaethol. Y tywysydd ar y daith oedd Llion Williams (George C'mon Midfield) a oedd yn stôr o wybodaeth. Cafwyd tywydd bendigedig a phenwythnos i'w chofio.



Grŵp o ardal y Cardi Bach ger y gofeb yn Sandringham.

Bu rhai o aelodau'r gangen ar daith gerdded y Rhanbarth o gwmpas Llyn Llech Owain. Cafwyd prynhawn hyfryd o gerdded, clywed hanes a chwedlau Llyn Llech Owain gan Rhian Perks a chyfle i gymdeithasu dros gwpanaid o de a chacen. Diolch i swyddogion y Rhanbarth am drefnu'r daith.

### Clwb Gwawr Merched Hywel

Aeth 15 o ferched glandeg ar daith i Lambed ar y 24ain o Fehefin i dreulio diwrnod yng nghwmni Gareth Richards, y cogydd a'r trefnydd blodau. Mae ei wyneb yn adnabyddus i wylwyr rhaglenni Prynhawn Da ac Heno ar S4C ers nifer o flynyddoedd erbyn hyn, ac mae'n siwr bod nifer ohonom yn berchen ar ei lyfr coginio Cegin Gareth.

Cyrhaeddom gartref Gareth erbyn 10:30 gan dderbyn paned a phice bach, cyn symud i'w gegin arddangos i dreulio dwy awr ddiddorol iawn yn gwylio ac yn gwrando ar Gareth yn paratoi bwyd yn addas ar gyfer picnic haf. Cafwyd llawer o dipiau handi ar gyfer hwyluso a gwella ein sgiliau cwcan yn ogystal â sawl stori am sut y datblygodd ei ddiddordeb mewn coginio.

Yn dilyn yr arddangosfa, cafwyd gwledd o ginio tri chwrs yn cynnwys y danteithion blasus bu Gareth yn eu paratoi yn ystod y bore.

Yna, yn y prynhawn, a'n bolie'n llawn, aethom nol i'r ystafell goginio a oedd wedi ei thrawsnewid i le trefnu blodau. Aeth Gareth ati, yn ei ffordd hamddenol a difyr, i drefnu pedwar arddangosfa flodau gan ddefnyddio blodau sydd yn eu tymor ar hyn o bryd. Roedd y cownter yn fôr o

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

liw iddo greu'r trefniannau gan ddefnyddio blodau haul, sweet William, peonies a rhosys. Unwaith eto, bu'n rhannu ei hanes am sut y magwyd ei ddiddordeb mewn trefnu blodau, a taw hyn oedd yn rhoi'r mwynhad fwyaf iddo.

Yn ystod yr arddangosfa flodau, soniodd am yr holl waith mae'n ei wneud, gan gynnwys trefnu blodau ar gyfer achlysuron llon a lleddf, coginio prydau i westeion y byddai'n aros mewn llety hunan darpar lleol yn ogystal â chynnal arddangosfeydd rhyw deirgwaith yr wythnos i fudiadau amrywiol. Yn ddiddorol iawn, mynegodd fod y mwyafrif o'r arddangosfeydd a gynhelir yn ei gartref drwy gyfrwng y Saesneg, ac anaml iawn erbyn hyn y byddai'n cynnal diwrnodau yn y Gymraeg.

Cafwyd bach o gyffro yn ystod y sesiwn prynhawn wrth i gar daro wal ffrynt cartref Gareth a'i dad, gyda'r heddlu a char ambiwlans yn cael eu galw. Yn ffodus iawn, ni chafodd neb niwed mawr (heblaw am y wal!)

Yn dilyn y trefnu blodau, aethom nol i'r ystafell fwyta a chael te prynhawn moethus yn cynnwys gweddill y danteithion a baratôdd yn y bore! Yn wir, roeddwn wir wedi gwledda fel breninesau drwy'r dydd. Cyn gadael, tynnwyd raffl gyda'r trefniannau blodau yn wobrau hyfryd. Gwnaed y diolchiadau gan Sarah i Gareth, heb anghofio am Anti Mary, a bu'n gweithio'n galed drwy gydol y dydd yn gweini'r bwyd, yn ogystal â pharatoi llysiau ar gyfer y prydau y byddai Gareth yn gweini'r noson hynny!

Diolch i Delyth Morris am drefnu diwrnod hyfryd dros ben, yn ogystal â bod yn gydlynydd effeithiol ar hyd y flwyddyn, ac i Diane Jones am drefnu'r bws.

Diolch hefyd i "ffrindiau'r achos" a ymunodd gyda ni ar y dydd. Cafwyd ddiwrnod wrth ein boddau!
Bydd Clwb Gwawr yn ail ddechrau ym mis Medi.





Aelodau Clwb Gwawr a ffrindiau yng nghwmni Gareth ac Anti Mary cyn gadael.

## Coginio
Winnie James Phillips

### RISOLS FFOWLIN a THATWS

Cynhwysion:-
1 pwys o datws wedi eu pwtsho
6 owns o gig ffowlyn wedi ei goginio a'i dorri'n fân
1 darn o facwn wedi ei goginio a'i dorri'n fân
2 binsiad o deim
½ winwnsin wedi ei ratio
Halen a phupur
1 wy wedi ei guro
Briwsion bara i orchuddio'r risols

**DULL**

Cymysgwch y ffowlyn a'r bacwn gyda'i gilydd ac ychwanegwch at y tato pwtsh.

Yna'r teim, winwnsin, halen a phupur.

Ychwanegwch hanner yr ŵy i glymu'r gymysgfa a ffurfiwch i siap teisennau bach fflat.

Rhowch y teisennau yng ngweddill yr ŵy a gorchuddiwch â briwsion.

Ffriwch mewn saim (y ddwy ochr) nes eu bod yn felyn-frown.)

Bwytewch yn dwym gyda salad gwyrdd neu lysiau.

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# GELLYWEN

Hoffai holl aelodau Ainon ddymuno penblwydd hapus i Peter Crowdie a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar yr 17eg o Orffennaf. Peter yw asgwrn cefn yr achos yn Ainon ac mae'r aelodau i gyd yn gwerthfawrogi yr holl waith mae yn ei wneud yn fawr iawn.

## *Priodas Dda*



Ar 10fed Mehefin, gyda'r heulwen yn disgleirio ar Gapel Ainon, Gelliwen, priodwyd Carl Rhys Morris â Delyn Haf Page. Gwasanaethwyd gan Jean Lewis, Trelech.
Cymerwyd rhan gan Gôr Meibion Hendygwyn ynghyd ag eitemau gan Phoebe Bessant a Dafydd Page a datganiad o "Unwaith eto'n Nghymru annwyl" gan Edryd Page, tad y briodferch.
Cafwyd darlleniad gan Teleri Bowen a Ceri Morris ac ar y diwedd, cerddodd y priodfab a'r briodferch allan i gerddoriaeth swynol Megan Williams ar y soddgrwth.

---

# MEIDRIM

**Henoed**
Daeth 25 o aelodau ynghyd i fwynhau te mefus blasus dros ben yn yr Hen Ysgol yn Sanclêr a oedd wedi ei baratoi gan Sue. Offrymwyd gras gan Meirion Morris a chawsom amser da gyda'n gilydd.
Cawsom drafodaeth fer am y wibdaith i Stiwdio Onnen yn Llandeilo ar Awst 1af, gyda'r bws yn gadael maes parcio Meidrim am 12 y.p. Ar y ffordd adref byddwn yn galw am swper yn y Llwyn Iorwg, Caerfyrddin.
Yn rhoi raffl ar y trip - Patsy Lewis, Lilian Rees, Lyn Herbert a Violet Thomas.

## Testun Diolch

Cofnodwn farwolaeth un o ddarllenwyr mwyaf selog "Y Cardi Bach", sef Nesta Davies, gynt o Gaerllegan Fach, ar Fawrth 7fed, yn 88 oed. Diolchwn am ei bywyd hir a hapus, ac am y gofal a dderbyniodd yn ystod ei salwch byr.

Mi ymadawodd â'r ardal yn 1957 wedi iddi briodi â Ken Davies, ac ymgartrefu yn Maesgwili, ar gyrion tre Caerfyrddin, lle magwyd dau o blant, Nigel a Rosemary. Serch hynny, roedd ei gwreiddiau yn ddwfn yn ardal Meidrim, Blaenwaun a Threlech, ac roedd "Y Cardi Bach" yn ei galluogi i gadw cysylltiad agos gyda'i chynefin.

Yn berson diffuant ac yn 'fodlon ei byd', bu'n chwaer ofalgar a ffyddlon i'w brawd Ken dros y blynyddoedd. Fel hithau, roedd ef yn meddu ar bersonoliaeth tawel, diffws, ac yn ddyn ei filltir sgwâr. Bu farw yntau ar Ebrill 1af, yng nghartre gofal Y Garreg Lwyd, yn 91 oed. Yn yr un modd, rydyn ni'n diolch am ei fywyd ef.

Cofiwn am "Mon" (Raymond), sydd yn dal i fyw yn Meidrim, ac am Mair, sydd yn Llundain, yn eu hiraeth am frawd a chwaer annwyl.

Diolch i bawb am bob cefnogaeth yn ystod y misoedd diwethaf, ac i'r llu o ffrindiau a chymdogion a ddaeth i ffarwelio â Ken yn eglwys Meidrim. Hoffwn rannu englyn o waith eu tad, James Thomas Gaerllegan, sydd yn dweud y cyfan:

*Rhyw gofion pêr a gyfyd – o'u hyfwyn*
*ofal fore'n bywyd.*
*A saif eu gwersi hefyd*
*o iawn werth i ni o hyd.*

# CWM MILES

Trefn oedfaon:
Gorffennaf 23ain. Cymun 2 o'r gloch Ann Evans.
Medi 17eg. Gobeithir cawn gwmni y Parchedig Euros Jones Evans os bydd wedi gwella yn ddigon da. Yn y cyfamser pob dymuniad da iddo am wellad buan.

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Miss Natalie Morgan am ei gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Gorffennaf 30ain - Catrin Isaac Thomas - Cwrdd am 10.30 o'r gloch
Medi 3ydd - Cynnal oedfa yng Nghartref Glyn Nest am 2 o'r gloch
17eg - Wyn Thomas - Cymun am 10.30 o'r gloch

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i Mary Llewellyn, Garth, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar..

**Taith gerdded**

Cynhelir taith gerdded noddedig blynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda ar fore Sadwrn, Medi 16eg - dechrau o gapel Trinity, Llanboidy am 10 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i gael cwmni gymaint a phosib o'n haelodau er mwyn cefnogi elusennau Tir Dewi, Beiciau Gwaed a Meddygfa San Cler.

## Canolfan Ffynnonwen

**Dathlu 50fed**

Mae'r trefniadau yn mynd yn eu blaen i ddathlu yr hanner canfed penblwydd. Cofiwch y dyddiad, Sadwrn 29ain o Orffennaf. Y Parchedig Aled Gwyn fydd yn agor yr achlysur - stondinau cacennau, poteli a mygiau, gemau twba lwcus a digon o fwyd. Hefyd bydd arddangosfa o luniau fydd yn cofnodi gweithgareddau'r ganolfan a mabolgampau i'r plant. Mae gwisg y saithdegau yn opsiynol. Digon i'ch diddori. Os hoffech gyfrannu unrhyw beth at y stondinau croeso i chi wneud hynny. Efallai hefyd byddai rhai o ddarllenwyr y Cardi Bach neu fusnesau lleol yn hoffi noddi'r achlysur. Cysylltwch â Roy Llewellyn, Cadeirydd, Beti James, Trysorydd neu Meinir Eynon Ysgrifennydd.

Plîs cefnogwch yr achlysur arbennig. Bydd yna groeso mawr i chi.
(Byddai yn help i'r trefniadau pe byddech yn gallu dod â sedd gyda chi, ond nid oes eisiau prynu un yn arbennig at y digwyddiad)

## Cylch Meithrin Ffynnonwen

Mae'r Cylch wedi cael tymor prysur o weithgareddau. Dyma lun o Hannah, arweinydd cwmni " Plant y Goedwig" yn diddori'r plant gyda gweithgareddau yn ymwneud â natur yn yr awyr agored. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn.





Diolch i Hannah o Plant y Goedwig a ddaeth mas i wneud gweithgareddau gyda'r plant, roedd y plant a staff wedi mwynhau yn fawr iawn!

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed
Ffôn:
01994 240857

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau mawr i Mererid Davies a Michael Williams ar eu priodas yn ddiweddar. Priodwyd y ddau ym Mhontargothi ar Ebrill 22ain, ac yna King Arthur. Mae Mererid yn ferch i Wyn a Meinir Davies ac mae Michael yn fab i Stephanie Phillips, Siop Sian. Pob dymuniad da i'r ddau am y dyfodol.

# BLAENWAUN

**Moriah**

Pob dymuniad da am wellad buan i Pat Davies, Pilmawr, sydd wedi cael damwain ac wedi torri ei garddwrn. Gobeithio gwnaiff wella yn gyflym.

Cydymdeimlwn â Cheryl James, Elwyn a'r teulu ar golli brawd yng nghyfraith sef Dilwyn James o Abergwaun, yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon sy'n dathlu eu Priodas Aur ar 28ain Gorffennaf. Pob dymuniad da i'r dyfodol a diolch hefyd i ti Iori am dy waith o gynnal a chadw'r capel.

Pleser yw cyfarch Tegwen James, Penybryn, ein hysgrifennydd ariannol. Mae'n dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Awst 14eg. Llongyfarchiadau Tegwen, iechyd da i'r dyfodol a diolch am dy holl wybodaeth a'r gwaith i hwyluso bywyd y capel.

Diolch i'n gweindog y Parchedig Gareth Ioan ac Elonwy Phillips am eu gwasanaeth yn ddiweddar.

**Trefn y Suliau:**

Gorffennaf

16eg. Gwibdaith y dair Eglwys i'r Eglwys Eidaledd yn Henllan

30ain; Oedfa bregethu 2 o'r gloch Tudur Dylan

Awst: Dim oedfaon.

Medi

3ydd: Parchedig Gareth Ioan. 10.30yb

16eg. Taith gerdded Capeli Bro Hywel Dda.

17eg. Elonwy Phillips. Cymun 2 o'r gloch

**Penblwydd arbenig**

Dymuna'r teulu ddymuno Penblwydd Hapus iawn i fam, mamgu a hen famgu arbennig iawn sef Tegwen James, Penybryn fydd yn dathlu'r 90 ar Awst 14eg. Bydd croeso mawr i chi alw am glonc a phaned.

# PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Ieuan a Liz Daniels, Brynmeusydd, Heol Bethlehem, a oedd yn dathlu eu Priodas Aur ar Fehefin 30ain.

Roedd Elfyn a Dorothy Jones, Llwyn Teg, yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt. Llongyfarchiadau iddynt hwythau hefyd.

Mae Aled Jones (Aber gynt) a Kayleigh wedi bod adre am gyfnod o wyliau o Awstralia ac yn aros yn Delfan. Braf oedd eu gweld ym Mhwll Trap.

Edrychwn ymlaen i groesawu Rhian, Richard, Cerys a Tomi, hefyd o Awstralia, am gyfnod o wyliau. Mae Doreen ac Alun yn disgwyl mlaen yn fawr at gael eu cwmni ym Maes y blodau.

Llongyfarchiadau i Geraint a Ruth Jones ar enedigaeth ŵyr bach, Elis Jac. Mab i Lowri a Will Rees.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Morris, Ostrey a'r teulu ar farwolaeth brawd Mr Morris, sef John Morris, Arglwydd Aberafan.

**Bethlehem Newydd - Ddoe, Heddiw ac Yfory**

Ar Orffennaf y 1af daeth oddeutu 100 o aelodau'r capel a'r gymuned leol i weld arddangosfa yn y capel. Ar naill ochr o'r capel cafwyd lluniau ac arteffactau yn cofnodi'r

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

gorffennol a'r gorffennol hwnnw yn un nodweddiadol o gapeli anghydffurfiol hyd at ganol y ganrif ddiwethaf, yn tystio i ystod eang o weithgareddau crefyddol a diwylliannol ac yn arddangos bwrlwm a chynnwrf y cyfnod. Ar ochr arall y capel roedd cofnod o weithgareddau elusennol presennol yr eglwys yn sgil penodi Swyddog Cymunedol, gyda chynrychiolwyr o'r Lloches i wragedd a mudiad Plant Dewi yn bresennol yn cynrychioli rhai o'n partneriaid.



Canolbwynt yr arddangosfa oedd y cynlluniau ar gyfer dyfodol yr adeilad, braf oedd cael y pensaer, Gerald Blain a'i fab, Dylan yn bresennol. Y bwriad yw trawsnewid y llawr trwy dynnu'r corau gan greu gofod amlbwrpas a hygyrch gyda chegin bwrpasol yn y festri. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar gadw'r adeilad yn addoldy ond hefyd i'w agor i'r cyhoedd gydag ystod o weithgareddau yn canolbwyntio ar anghenion iechyd a lles y gymdogaeth, megis y difreintiedig a rhai sy'n dioddef o unigrwydd. Crynhowyd y weledigaeth yn yr arwyddair – *Tŷ Duw a thŷ'r bobl, Tŷ clyd sy'n cynnig croeso, Canolfan i'r gymuned.*



Penodwyd swyddog cymunedol sydd wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer gweithgareddau cymunedol presennol ac i'r dyfodol. Roedd yn gyd-ddigwyddiad hyfryd mai Maer Sanclêr a'r Swyddog Cymunedol yw Annalyn Davies ac mai hi agorodd yr arddangosfa. Hi oedd yn bennaf gyfrifol am ei threfnu ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi.

Bu'n brynhawn llwyddiannus iawn. Diolch yn arbennig i Judith ac Elen Jones, Penybont, am osod yr arddangosfa mor chwaethus, i'r gweinidog am lywyddu'r prynhawn, i'r gwirfoddolwyr fu'n helpu yn y capel a gyda'r lluniaeth ac i bawb a gefnogodd y prynhawn.



Annalyn yn agor yr arddangosfa ym Methlehem Newydd.

# SAN CLER

Penblwydd hapus i Jeff Harries, Ffynnonwerdd, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Orffennaf 10fed.

Pob dymuniad da i Hannah Richards a fydd yn cychwyn ei swydd gyntaf fel athrawes yn Ysgol Eglwyswrw ym mis Medi.

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Pamela Thomas (Gothic Villa gynt) a oedd yn byw yn Ne Lloegr. Mae llawer o'i pherthnasau yn byw yn yr ardal a chydymdeimlir â'r teulu oll. Cynhaliwyd gwasanaeth i gofio amdani yn Eglwys San Cler.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth.**

Cafwyd gwasanaeth Mr Arwel Evans a'r Parch. Huw George yn oedfaon mis Gorffennaf - diolch iddynt.

Mae'r flwyddyn yn mynd heibio'n gyflym – ar ôl gwyliau mis Awst, dyma drefn mis Medi:-

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

3ydd: Cymundeb. Y Parchg. Ken Thomas - 10.30
10fed: Oedfa yng ngofal y Parchg. Huw George - 2.00
16eg: Taith Gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda.

### Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynnon Taf 2024



Cynhaliwyd Gŵyl Gyhoeddi yr Eisteddfod uchod ar Fehefin 24ain yn Aberdâr. Un o’r Llywforynion yw Efa Grug Davies, merch hynaf Rhian, (Carreglwyd, Llangynin gynt) ac Adrian Davies. Pob dymuniad da iddi yn ystod y flwyddyn. Mae Mamgu, Geraint a Tadcu Tymore yn falch iawn ohoni.

### *Priodas Aur*



Llongyfarchiadau anferthol i Mam a Dadi, sef Ceri a Iori Saer, Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach fydd yn dathlu ei Priodas Aur ar y 28ain o Orffennaf. Ni’n hynod o browd ohonynt ac mor ddiolchgar am bopeth maent wedi neud i ni fel teulu. Cariad mowr oddi wrth y teulu cyfan.

### *Graddio*



Llongyfarchiadau i Ffion Gibbon, Ysgubor Uchaf, Pedair Heol ar dderbyn gradd BA Addysg Gynradd o Goleg y Drindod, Dewi Sant, Caerfyrddin. Dymuniadau gorau oddi wrth Mami, Dafydd, Cari ac Alaw.

## LLANGLYDWEN

### Taith geir a beiciau modur er cof am Sion Wyn Phillips

Cynhaliwyd taith geir a beiciau modur er cof am Sion Wyn, Trefedw, Hebron ar ddydd Sul, Mehefin 11eg. Gwnaeth dros 160 o geir a beicie modur ddod ynghyd i’r man cychwyn ar safle “Frenni Transport” Crymych, cyn iddynt deithio ar hyd hewlydd gwledig y broydd hyn. Daeth y daith i ben yn Nhafarn Pantyblaidd lle cynhaliwyd raffl ac ocsiwn o eitemau amrywiol.



Mae dros £6,000 wedi ei godi hyd yn hyn, tuag at elusennau Ambiwlans Awyr Cymru ac Ymatebydd Cyntaf Crymych, ond bydd y gronfa ar agor tan ganol mis Awst. Os hoffech gyfrannu, (a ma croeso mawr i chi wneud), cysylltwch â Barry Phillips ar 07967 187124.

arwyddion eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
“Handyman”
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648


Rhai o’r 160+ o geir a gymerodd ran yn y daith

## *Priodas Dda*





Llongyfarchiadau i Ffion Williams, merch Paul ac Eirlys, Maesy-felin, Hebron a Jamie Stiles, mab Jason a Caroline o Upland Arms ar eu priodas yn ddiweddar. Priodwyd y ddau yn Eglwys Llan-glydwen gyda’r brecwast yn dilyn ym Maesyfelin.

# LLANBOIDY

**Trinity**

Ar yr 2il o Orffennaf, cafwyd oedfa gyda’r aelodau yn cymryd rhan. Thema’r oedfa oedd Llangollen ac yn ei araith bu’r gweinidog yn son fel roedd yr Eisteddfod Rhyngwladol wedi dod a chantorion a dawnswyr o wledydd ar draws y byd gyda’i gilydd yn y gobaith o heddwch. Cafwyd cymun i ddilyn.

**Cyfarchion Penblwydd**

Dymuniadau gorau i’r canlynol ar ddathliadau arbennig-Tania Evans oedd yn 60 oed ar Orffennaf yr 2il.
Valerie Dixon oedd yn 80 oed ar Orffennaf 16eg a W.J. Davies, Stag oedd yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Orffennaf 25ain.

**Sefydliad y Merched**

Cyfarfu’r aelodau yn Neuadd y Farchnad ar Fehefin 8fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Bu’n dymuno’n dda i Beth oedd wedi cwympo yn ei chartref ac ar hyn o bryd yn ysbyty Glangwili. Cyflwynodd y llywydd y gwestai sef y Parchedig Jeni Parsons sydd wedi cymryd gofal yr eglwys leol ar ôl ei ymddeoliad. Bu’n son am y gwaith roedd yn gwneud yn y gorffennol. Diolchodd Jan Griffiths iddi am ei haraith. Enillydd y gystadleuaeth am y neclis pertaf oedd Jayne Evans ac enillydd y raffl oedd Anna. Roedd y te a’r bisgedi o dan ofal Gwen a June.

## 50 mlynedd o wasanaeth




Mae Tudor Lewis, Haulfan, Llanboidy wedi cyrraedd y garreg filltir o weithio hanner can mlynedd yn y diwydiant llaeth. Dechreuodd gyda Unigate yng Nghastell Newydd Emlyn yn 1974 ac ar ôl i’r hufenfa gau yno ar ddechrau’r 80au, aeth i weithio yn hufenfa Hendygwyn. Caewyd y ffatri yno yn 1994 ond fe arhosodd y loriau yno hyd 2012, pryd eu lleolwyd yng Nghross Hands. Yn dilyn hyn, penderfynodd Tudor fynd i weithio i Mansel Davies gan yrru tancer o amgylch ffermydd yn casglu llaeth, gan ddechrau bob bore am 2 o’r gloch. Gwasanaeth arbennig.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth · Cyflogau
Cadw Cyfrifon · Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a’i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# TRELECH

**Llongyfarchiadau** y mis yma eto i Mrs Ina Barnett ar ddod yn hen famgu i Charlie Franklin Barnett Jones. Plentyn cyntaf i Andrew a Kasia.

**Gwellhad** buan i Glyn James, Godredewi sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac sydd yn treulio ychydig amser yn Llanymddyfri yn cryfhau.

**Pob dymuniad da** i Margaret Rees, Maesybont sydd wedi mynd i gartref Brynderwen am ychydig wythnosau.

Braf oedd gweld Mrs Bessie Bowen, Rhydycyw ar rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yn ddiweddar yn edrych mor hapus.

Bydd Côr Seingar yn Nhafarn Beca ar nos Wener y 29ain o fis Medi. Dewch yn llu!

## Cwrdd Chwiorydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Wedi bwlch o dair blynedd braf oedd medru cynnal yr oedfa hon eleni a thro Capel y Graig, Trelech oedd bod yn gyfrifol am y gwasanaeth. Llywyddwyd gan Joan Thomas, Heol Awst, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Margaret Davies ac Olga Williams o Heol Awst.



Yn dilyn y rhannau arweiniol trosglwyddwyd Beibl y Llywydd i'r llywydd newydd, sef Jean Lewis o Gapel y Graig. Wrth ei chyflwyno, soniodd Joan am y cyfraniad enfawr mae Jean yn ei wneud i'w hardal gan gynnwys ei hymrwymiad cadarn i Gapel y Graig.

Yna cafwyd cyflwyniad arbennig iawn gan chwiorydd Capel y Graig ar "Ddathliadau" pan, drwy ddarlleniadau, drama a chân, buont yn son am ddathlu'r achos yng Nghapel y Graig, dathliadau gwladol a'r uchafbwynt sef dathlu Crist. Yn dilyn yr emyn olaf cyflwynwyd y fendith gan Marian Thomas o Fethlehem Newydd a Gibeon. Cyfeiliwyd drwy'r oedfa gan Eirlys Phillips.



Gwasanaeth bendithiol iawn. Diolch i Jean, Caroline, Gwawr ac Eirlys am lunio'r cyflwyniad ac i bawb a fu'n cymryd rhan. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i rannu gwledd a chymdeithasu yn y Ganolfan. Diolch i Gapel y Graig am y croeso.

**Capel y Graig**
**Y Gymanfa Bwnc**

Ar y 14eg o Fai cafwyd oedfa gymun a chyfle i baratoi ar gyfer y Gymanfa Bwnc gan yr aelodau, gyda Mrs Elinor Jameson a Mrs Jean Lewis yn arwain trafodaethau bywiog ar y bennod a ddewiswyd ar gyfer y Gymanfa Bwnc.

Ar bnawn Sul, 21ain o Fai cynhaliwyd y Gymanfa Bwnc ym Mhen y bont. Dechreuwyd yr oedfa gyda Mrs Elinor Jameson yn cymryd at y rhannau arweiniol cyn i blant Ysgol Sul Capel y Graig gyflwyno eu pwnc a chaneuon ar y testun `Damhegion'. Yn cymryd rhan oedd: Elis, Lois, Marged, Owain, Iwan, Elain ac Anna. Ffion Harries oedd yr holwraig. Diolch yn fawr iawn i'r plant am eu gwaith graenus, i'r holwraig, ac i'r athrawon Ysgol Sul sef Eirlys Phillips ac Eleri Rees a diolch hefyd i Eirlys am gyfeilio.

Dilynwyd cyfraniad y plant gan Catrin Parry Williams a Tomos Jameson, Pen y bont. Ei thema hwy oedd `Drysau'. Diolch yn fawr iawn i Catrin a Tomos am gyflwyniad diddorol a swynol iawn. Diolch i Mrs Lily May Thomas a Mrs Linda Davies am hyfforddi a diolch i Linda am gyfeilio.




the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

**01994 240705 / 240055**

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol

15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Yn dilyn pobl ifanc Pen y bont, cafwyd cân gan ferched ifanc Capel y Graig cyn symud ymlaen at bwnc yr oedolion sef `Y Mab Afradlon'. Holwyd y pwnc yn drylwyr ac yn ddiddorol gan Mrs Helen Gibbon. I orffen, cafwyd cân gan yr oedolion cyn cyhoeddi'r fendith. Mrs Eirlys Phillips fu'n hyfforddi'r canu ac yn cyfeilio.
Yn dilyn yr oedfa, cafwyd lluniaeth blasus yn y ganolfan a oedd wedi cael ei baratoi gan wragedd Pen y bont.

Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n paratoi, yn cymryd rhan a hefyd i'r bobl ddaeth i gefnogi.

**Oedfaon Mehefin**
Ar fore Sul, 18fed o Fehefin, cafwyd oedfa gymun yng ngofal `Coda ni'. Diolch yn fawr iawn i 'Coda Ni' am rannu eu hanes diddorol a'u gweledigaeth. Diolch i Mrs Eleri Rees am gyfeilio.

# BANCYFELIN




Aeth dros hanner cant o aelodau'r Prirody, Cana a Bancyfelin a ffrindiau Heol Awst ac Elim ar bererindod i Sain Ffagan ar 18fed Mehefin. Cafwyd diwrnod ardderchog oedd yn cynnwys oedfa yng Nghapel Penrhiw yng ngofal Y Parchg Beti Wyn James gyda anerchiad diddorol gan Peter Hughes Griffiths a oedd yn bresennol yn yr oedfa olaf yng Nghapel Penrhiw, ger Drefach Felindre cyn i'r Capel gael ei symud i Sain Ffagan. Mwynhawyd pryd o fwyd ardderchog yn Y Bridge, Llangennech ar y ffordd adref. Diolch i bawb a ddaeth ac i Elfed Lewis am ein gyrru yn ddiogel.

**Capel Bancyfelin - Noson Tip-it**



Y tîm buddugol

Cynhaliwyd noson Tip-it yn nhafarn y Fox & Hounds, Bancyfelin nos Wener, 17eg Mehefin i godi arian i Gapel Bancyfelin. Cafwyd noson arbennig iawn gyda digon o hwyl a chwerthin! Y llywydd gwadd oedd Cheryl Thomas, Maescowin gynt. Diolch i bawb a gefnogodd y noson ym mhob ffordd. Codwyd dros £2,600.

**CYMANFA GANU FODERN**

**Nos Sul, 17 Medi**
**am 7 o'r gloch**
**yng Nghapel Cana, Bancyfelin**

i ddathlu ail-agor y capel a 200 mlwyddiant yr Achos

Llywydd: John Thomas, Derllys gynt

Arweinydd: Meinir Richards

Dafydd Wyn Jones, Tenor
Côr Seingar
Côr Bois y Felin
Band Capel Y Priordy

Mynediad trwy raglen £5

DH DAVID HARRIES & Co DH

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH



01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

**Gibeon**



Cynhaliwyd oedfa gan y plant a'r aelodau ar Fai 18fed. Y Pentecost oedd thema'r oedfa. Bu'r plant yn cyflwyno darlleniadau a gweddiau yn ogystal â chanu'r gân a ganwyd gan y Côr Ysgolion Sul yn Oedfa'r Eisteddfod. Hefyd, bu Holly yn canu "Yr Hydref", y darn a fu'n canu yng ngystadleuaeth yr unawd yn yr Eisteddfod. Cyflwynwyd darlleniadau a gweddi hefyd, gan Iona, Beti-Wyn, Elen, Meirion, Annalyn a Hiefena. Gweinyddwyd y Cymun gan Annalyn a Hilary oedd yn cyfeilio. Diolch i Marian am lunio'r gwasanaeth.

Dymunwn benblwydd hapus i Margaret Williams, Lower Court, a fu'n dathlu penblwydd arbennig ar Fehefin 28ain.

Dymunwn yn dda i Anwen Evans, Gwarwenallt, a fydd yn cychwyn ar swydd newydd yn dysgu cerddoriaeth yn Ysgol Maes y Gwendraeth ym mis Medi.

Braf oedd cael mynychu Gŵyl y Sul Sbesial yn yr Egin ar Orffennaf 9fed. Llywyddwyd gan Gadeirydd y Cyfundeb, Rhiannon Mathias a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan blant ac ieuenctid Ysgol Sul Blaenycoed. Y siaradwr gwadd oedd Catrin Stevens a fu'n rhoi hanes y ddeiseb heddwch 1923 -24 a phrosiect Nain-Mamgu.

Diddorol iawn oedd gwrando arni a chlywed am yr hyn a wnaeth merched Cymru ganrif yn ôl dros heddwch yn y byd. Da hefyd, oedd cael y cyfle i gymdeithasu dros gwpaned a chacen ar ddiwedd y prynhawn.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Dywedir yn aml ein bod fel pobl capeli ddim yn fodlon mentro ac arbrofi a cheisio gwneud pethau mewn ffyrdd gwahanol. Wel, rydym wedi mentro mewn ffordd fawr yn y Tabernacl yn ddiweddar drwy symud yr Ysgol Sul i brynhawn Gwener a'i alw yn Clwb Hwyl. Fe wnaethom hyn gan fod gymaint o bethau ymlaen gan y plant ar fore Sul y dyddiau hyn ac yn enwedig y gemau rygbi.





Mae'r arbrawf wedi profi yn llwyddiant mawr hyd yn hyn gyda chymaint â 17 o blant yn dod i'r Clwb Hwyl.

Mae'n amser y pererindodau blynyddol a braf oedd croesawu Gofalaeth Bröydd Myrddin atom yn ddiweddar. Roeddent ar ei pererindod blynyddol ac fe wnaethant ymuno gyda ni ar gyfer oedfa un bore Sul. Ar ôl y gwasanaeth fe wnaethant barhau ar eu taith i Sir Benfro cyn iddynt alw yn Nantyffin am swper ar y ffordd adref.





Ymweliad Gofalaeth Broydd Myrddin

Ar nodyn trist rydym wedi colli aelod yn ddiweddar sef Mr Brian Evans. Rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda Eilona a gweddill y teulu yn eu galar.

Mae noson fawr gyda ni ar nos Lun, Gorffennaf 31ain am 7.00 yn Festri'r Tabernacl pan fydd Ifan Gruffydd (Tregaron) yn anerch ar y testun 'Cristnogaeth a Fi'. Pris mynediad yw £3 yn cynnwys paned a chynhelir y noson fel rhan o ddathliadau 'Wythnos Hendy-gwyn'.

Llongyfarchiadau i Meryl James ar ôl iddi dderbyn tysteb wrth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wrth iddi ymddeol fel Trysorydd yr Undeb ar ôl saith mlynedd yn y gwaith. Derbyniodd glod mawr am ei gwaith diflino a chydwybodol yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn y Rhos ger Wrecsam yn ddiweddar.



Meryl James yn ymddeol fel Trysorydd Undeb yr Annibynwyr - o'r chwith Jeff Williams (Llywydd) Meryl James, Beti-Wyn James (Cyn-Lywydd) a Dyfrig Rees (Ysgrifennydd Cyffredinol)

## *Priodas Dda*





Llongyfarchiadau mawr i Sioned Thomas a Thomas Jacob ar eu priodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth bawb yn y capel.

Byddwn yn parhau ar agor fel arfer yn ystod mis Awst a dyma fydd trefn yr oedfaon yn ystod yr wythnosau nesaf :

Gorffennaf 30ain : 9.30 Tabernacl : Oedfa Gymun
Awst
6ed : 10.00 English Cong, Hendy-gwyn: Oedfa Wythnos Hendy-gwyn
13eg : 10.00 Bethel, Llanddewi : Oedfa Ddwyieithog dan ofal Edward Howells
20fed : 10.30 Tabernacl : Oedfa dan ofal Llinos Jones
27ain : 10.30 Trinity, Llanboidy : Oedfa dan ofal Elonwy Phillips

---

## Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda
### Sioe Ffasiwn



Cynhaliwyd Sioe Ffasiwn llwyddiannus iawn ym mis Mehefin a codwyd dros £1250 i'r Cylch.

Diolch o galon i Pethau Olyv a Llawn Cariad am eich cefnogaeth ac eich gwaith caled ar y noson ac wrth gwrs yr holl baratoadau gyda'r modelau cyn y digwyddiad!
Diolch i'r modelau am roi o'ch amser, roeddech chi gyd yn edrych yn ffantastig!
Diolch i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i sicrhau noson lwyddiannus.

Diolch i Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Hendygwyn am roi defnydd o'r ystafell am ddim.
Yn olaf rydym yn ddiolchgar iawn i Colin Harries, Cigydd The London House ac Ed John Fferyllfa Clunderwen am noddi'r noson, ni wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth parhaus yn fawr iawn.
Diolch o galon i chi gyd,
*Pwyllgor a Staff Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda*

**Enillwyr Clwb 200 Mis Mai**
1af £40 - Rhif 125 - Nia a Clive Edwards
2ail £20 - Rhif 58 - Simon Allen
3ydd £10 - Rhif 139 - Enfys Thomas

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

**Enillwyr Clwb 200 Mis Mehefin**
1af £40 - Rhif 55 - Nath & Sam
2ail £20 - Rhif 25- Alison Howard
3ydd £10 - Rhif 146 - Rhian Harries

Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

## Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch




Lansiwyd CD newydd y Côr ar Sadwrn, Gorffennaf 8fed yn Nhafarn Fishers yn Hendy-gwyn am 7 o'r gloch. Os oes rhywun yn dymuno prynu'r CD, cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Côr, neu gyda Roy Morris ar 07971 414105. Mae'n fargen am £10 ac yn cynnwys 18 o ganeuon.

Ar Ddydd Sadwrn, 22ain Gorffennaf bu'r côr yn canu yn Nhafarn Y Royal Oak yn Abergwaun am 3 o'r gloch y prynhawn gyda band RocCana yn dilyn am 7yh. Codwyd arian sydd mawr ei angen ar elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

## Enillwyr Clwb Cant Hywel Dda mis Mehefin

£50 - D.L. a E.A.Wood, Allsorts
£40 - Sharon Morris, Classic Kitchens
£30 - Roy Llewellyn
£20 - Russell Davies

# LLANDDEWI



**Bethel** Llongyfarchiadau i Lowri a Wil Rees ar enedigaeth Elis Jac yn ddiweddar. Mae Lowri yn aelod yn Bethel a llongyfarchiadau a phob dymuniad da wrth pawb yn y capel.

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud:** Diolch i'r Parchedig Guto Llywelyn am ei wasanaeth yn oedfa'r Cymun ar Sul, Gorffennaf 2il. Pleser oedd cael cwmni Dewi Griffiths ac Eifiona Lewis yn yr oedfa.

# LLANGYNIN

**Llongyfarchiadau**



Cafodd Millie Morris, Aber, ei dewis yn un o forynion tywysoges Carnifal Bancyfelin eleni. Llongyfarchiadau mawr i ti Millie. Dyma lun o'r dywysoges a'i morynion ar y diwrnod mawr (mae Millie ar y dde). Rydych chi i gyd yn edrych yn hyfryd yn eich ffrogiau pert!

**Gwellhad buan**
Rydym yn falch iawn o glywed bod Mathew Little, Lleifior, wedi cael dod adref o'r diwedd ar ôl treulio misoedd lawer yn yr ysbyty ac yn dymuno y bydd yn parhau i wella a chryfhau o ddydd i ddydd.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Roy Reynolds, Tymore, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cofiwn am Alun Lewis, Llwynbychan, yn dilyn damwain gas ar y cwad ar ddechrau mis Gorffennaf. Da clywed ei fod wedi cael dod adref o'r ysbyty a dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.


Anfonwn ein cyfarchion a phob dymuniad da am wellhad buan i Marianne Phillips, Elm Lodge, sydd yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd, ar hyn o bryd.
Ein cofion a'n dymuniadau da iddynt oll .

**Diolch**
Dymuna Menna a'r teulu ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau, blodau a'r rhoddion ariannol tuag at elusennau lleol a dderbyniwyd ganddynt ar ôl colli gŵr, llysdad a thadcu annwyl, sef Myrddin Parry, Erw Lon, Llangynin. Diolch yn fawr i bawb.

**GWASANAETH CEIR HENDYGWYN**
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN CRYMYCH**
**Crefftau Cymreig**
***Gemwaith Rhiannon***
***Crisial Brenhinol Cymru***
***Crefftau Lleol***
***Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau***
***Crymych, SA41 3QF***
***FFÔN: 01239 831230***


- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

# LLANDYSILIO



**Llongyfarchiadau** enfawr i Jessica Robinson ar gyrraedd y ffeinal sef un o'r chwech olaf yng nghystadleuaeth Canwr y Byd yng Nghaerdydd. Y ferch gyntaf o Gymru i wneud hynny. Arbennig.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Harries (merch Dai a Janet Harries o Rosberry) a Bleddyn Davies o Llandudoch ar eu dyweddiad. Dymuniadau da iddynt.

**Priodas Aur**




Llongyfarchiadau mawr i Sue a Geraint Llewellyn, Penycwm, ar ddathlu eu Priodas Aur ar 16eg o Fehefin

**Penblwyddi arbennig**

Penblwydd hapus i Dave Hammersley Lamos a oedd yn 40 oed ar 12fed o Fehefin.

.... i Laura Thomas yn 30 oed ar 24ain o Fehefin, merch Gethin ac Ann Thomas.

.... i Daisy Ray hefyd yn dathlu 30 oed ar 24ain o Fehefin, merch Sarah Ray.

.... i Diane Jones, Tŷ Gwyn Llandysilio a oedd yn 60 oed ar yr 22ain o Orffennaf.

**Chwaraeon**




Llongyfarchiadau i Lleucu Lloyd, ar ennill y Fedal Aur yn taflu gwaywffon (javelin), gyda thafliad o 41.05m yn ras y Steeplechase merched 1500m ym mhencampwriarth Athledau Ysgolion yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Lowri Harries a Carla, ar gwblhau 'Iron May Challenge' ym mis Mai a chodi £1,135 a £271.25 Cymorth Rhodd tuag at Ymchwil Cancr.

...hefyd i Colin Lewis ar gwbwlhau Triathalon Sir Benfro

...hefyd i Angharad James, yn wreiddiol o Llandysilio, ar cael ei dewis i fod yn gapten tîm Pel-droed merched Cymru yn erbyn yr Unol Daleithiau ar y 9fed o Orffennaf. Da iawn wir.

CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO
Neuadd Llandyslio, Llandysilio, Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY
Ar Agor: pob bore
9.00 yb - 12.00
Arweinydd: Liz Lewis
Rhif Ffôn: 07760135392
neu: cmllandysilio@outlook.com
Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716

Cylch Ti a Fi
Llandysilio
I blant 0-4 oed a'i
Rhieni/gwarchodwyr
Pob prynhawn Mercher
(heblaw ail Mercher
o bob mis)
12.00 - 1.30yp
£2.50
Neuadd Llandysilio

**Sefydliad Y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Mis hyn fe drefnodd Sue Richards, Lon John a Jayne Thomas Helfa Drysor. Cwrdd yng Nghlunderwen, ac yna mynd i Arberth. Lawr un ochor o'r stryd a nôl yr ochor arall, yna i Nantyffin am fwyd a chanlyniadau. Diolch iddynt. Byddwn yn mynd am wâc yn mis Awst.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587




WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

# EFAILWEN

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gwilym Jenner a Ffion Emyr ar eu priodas yn Llanystumdwy ar 1af o Orffennaf. I nodi'r achlysur, ysgrifennodd tadcu Ffion englynion arbennig iddynt.

Gwil mwyn o Gwel y Meini - a'r feinir
A fynnaist ei phriodi –
Un ddi-ffael o hael yw hi,
Yn gariad sy'n rhagori.

Rhyw em yw Ffion Emyr – yn eneth
Sy'n hynaws a phrysur;
Mor bert a'i llais sydd mor bur,
Yn gyson fe rydd gysur.

Un swil o fro'r Preselau – yn rasol
Gaiff groeso – a chardiau!
Yn fyddin byddwn ninnau
Yn dyst i ddyfodol dau.

Daw munuda' da yn don – o'r uniad
A rannwyd mor dirion;
Ninnau'n llwyth fe awn yn llon
I afael mewn atgofion.

*Dyfed Evans*

**Diolch**

Dymuna Pam, Russell a'r teulu ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli mam a mamgu annwyl iawn, sef Mair Eynon, Awel Deg, Glandy Cross. Casglwyd cyfanswm o £1000 tuag at Ymchwil Canser Cymru. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i deulu, ffrindiau a chymdogion a gyfranodd tuag at y gronfa.

# CLUNDERWEN

**Sioe Ffermwyr Ifanc Clunderwen a'r Cylch**

Cynhelir y sioe yn Parc-y-Llwyn a Neuadd Clunderwen ar ddydd Sadwrn, 26ain o Awst. Amserlen nawr ar gael neu lawrlwytho '2023 show'. Hefyd rasys defaid ar ôl y sioe, ras gyntaf am 6 y.h.

## *Priodas dda*



Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Plumb sef Sioned Gibby a Steve Michael ar eu priodas ar ddydd Gwener, 7fed o Orffennaf. Priodwyd yn Ngwesty'r Emlyn. Dymuniadau gorau iddynt.

# NEWYDDION BLAENCONIN

**DA IAWN JESS !**

Bu aelodau Blaenconin a'r ardal gyfan yn gwylio cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd am fod un o blant yr ardal, sef Jessica Robinson, yn cynrychioli Cymru ac yn ein cynrychioli ni !


Mae'r gystadleuaeth yn un o gystadlaethau canu mwyaf mawreddog y byd, ac eleni, mae BBC Canwr y Byd Caerdydd yn dathlu ei benblwydd yn 40 oed yn 2023. Mae'r gystadleuaeth bob dwy flynedd wedi lansio gyrfaoedd rhai o'r sêr opera mwyaf, gan gynnwys Karita Mattila, Dmitri Hvorostovsky a Syr Bryn Terfel. Daeth 5 canwr i'r llwyfan i ganu yn rownd derfynol yn cynnwys Jessica.

Gwledd o ganu yn y brifddinas.

Adolfo Corrado oedd yn fuddugol ond, mae enw a chymeriad Jessica wedi ennill edmygwyr a chefnogwyr o bob rhan o'r byd. Yn dilyn y canlyniad, daeth cymeriad Jessica i'r amlwg a hithau gyda'r cyntaf i longyfarch yr enillydd.

Mae Jessica yn gymeriad hoffus ac mae'r wên a'r direidi yn rhan annatod ohoni. Bellach, bydd Jessica yn dychwelyd i'r byd canu ac yn sicr o dderbyn gwahoddiadau i berfformio ar draws y byd ... gan gynnwys Llanboidy ym mis Hydref !!

**PENBLWYDD RATIFA**



SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
*GROSER a SWYDDFA BOST*
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

ORW LTD
TRADING AS:
DORIAN PHILLIPS
ADEILADWYR - BUILDING CONTRACTORS
Owain: 07879 495 653
Dorian: 07889 186 036
owain@dorianphillipsbuilders.co.uk
dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

Mae ein plentyn nawdd, RATIFA, yn dathlu ei phen-blwydd dydd Sul, 30ain Gorffennaf. Bydd Ratifa yn 10. Rydym eisoes wedi anfon carden ac anrheg i Ratifa yn Ntwetwe, Ugada.

Cofiwch gefnogi Ratifa ar yr ail Sul o'r mis gan fod ein cyfraniadau ariannol yn ei chynorthwyo i dderbyn addysg yn yr Ysgol leol.
Braint yw cael noddi a chefnogi Ratifa.

**LLYWYDD UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

Llawenydd yw datgan mai'r Parchedig Owain Llŷr Evans, Caerdydd ae Etholwyd yn ddarparu Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Mae Owain yn adnabyddus ar hyd a lled Cymru ac yn un sydd â chysylltiadau agos a'r ardal hon. Bu ei dad, y Parchedig W J Byron Evans yn weinidog ym Mlaenconin yn y 60au a melys pob atgof o'i gyfnod yma.

Bu Owain yn gweinidogaethu yn Rhosllanerchrugog cyn symud i'r brifddinas i wasanaethu yn Eglwys Minny Street yn 2002.

**NEWID YR AMSER**

Mae amser y Bore Coffi a'r oedfa gymundeb ar y Sul 1af o Awst yn newid a hyn am fod Huw wedi derbyn gwahoddiad i bregethu yn oedfa 'Whitland Week' yng Nghapel Eglwys yr United Reformed. Bydd yr oedfa yn yr Hendy-gwyn yn dechrau am 10 o'r gloch ac yn para tua 50 munud. Felly, bydd Bore Coffi Ratifa yn dechrau am 11 o'r gloch sy'n rhoi amser i Huw deithio o'r Hendy-gwyn yn ôl i Flaenconin gyda'r Oedfa Gymundeb yn dechrau tua 11.20. Diolch i'r aelodau am eu hynawsedd.

**Anturiaeth yr Arfordir**

Ar y Sadwrn cyntaf o Fehefin, daeth yr Anturiaethwyr ynghyd yng Nghaerbwdy, ger Tyddewi i ddechrau ar y cymal nesaf o 'Anturiaeth yr Arfordir'.
Gan ddilyn yr arfordir, mae'r llwybr yn esgyn o Gaerbwdy i ben graig ac ymlaen i Borth y Rhaw – traeth bychan tua hanner ffordd rhwng Tyddewi a Solfach.
Ymlaen o Borth y Rhaw ar hyd y llwybr heibio i Dŷ Llanunwas ac ymlaen i harbwr Solfach.
Roedd nifer o dai hardd i weld yn Solfach.
Wedi disgyn i'r harbwr, rhaid oedd dringo'r Gribin ac i lawr i draeth Gwadn.
Ymlaen i Borth y Bwch a Dinas Fawr, Dinas Fach gan ddod a'r daith i ben ym Mhorth Mynawyd.
O Borth Mynawyd, rhaid oedd dringo'r llwybr gan gerdded i gyfeiriad Cwm Bach sydd nepell o Gwm Mawr !
Ac wedi cyrraedd Cwm Mawr, dyma'r olygfa oedd yn ein disgwyl.



Mae traeth Niwgwl yn ymestyn dros ddwy filltir ond cyn cyrraedd, rhaid oedd dringo'r llwybr serth !
Wedi dringo, daeth traeth Niwgwl i'r golwg a'r Anturiaethwyr yn gorfod oedi i fwynhau'r olygfa.

Cerdded ar hyd y traeth a gweld dau o aelodau'r Eglwys yn mwynhau penwythnos yn yr haul ! Ymlaen o Niwgwl i Drefrân ac adfeilion yr hen waith glo. Wedi cerdded am ddwy awr, hyfryd oedd gweld pentref Nolton Haven yn dod i'r golwg.

Mae'r Anturiaeth yn parhau !

***Beirdd Blaenconin***

**Anturiaeth yr Arfordir – 15**

Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod gwaith,
ar noson hafaidd, heulog,
aeth tri am dro i'r Capel bach
cyn troi i'r llwybr troellog.

Daeth Aber Madoc o fewn dim,
ac yno, dan y porfa
yn cwato'n dawel yn y graig -
tŷ'r 'Teletubbies' smala.

Ac yna, mlaen i'r 'Druid's Stone' -
Côr Cewri y gorllewin ;
a dim ond un oedd ar y traeth …
a ni, sef pedwar wedyn.

I Aber Llydan - hufen-iâ,
A golau'r dydd yn diffodd,
Mor braf oedd cyrraedd Aber Bach -
ac antur arall drosodd.

---

**Anturiaeth yr Arfordir – 16**

Nos Lun - nôl yng nghanol Mehefin
a'r awel yn fwyn ac yn iach,
a'r tri a fu gynt nawr yn bedwar,
yn dechrau o draeth Aber Bach.

Y Point a Rook's Bay ddaeth yn gyntaf
cyn esgyn i iet Falling Cliff,
a Strawberry Hill - dyna chwysfa -
pob un o'r cyhyrau yn stiff.

I Goultrop - hen enw mae'n debyg,
a'r perthi yn flodau i gyd ;
ac oedi, i gofio y Dixons,
a'r drosedd yn dristwch o hyd.

Yr adar yn canu yn swynol,
a'r tonnau yn sibrwd eu cân ;
Carn Lleity i weld yn y pellter
o Hollywell … yna … ymlaen.

Rhaid disgyn i Hafan y Felin
cyn esgyn y llwybr hir, serth,
roedd Castell San Ffraed yn y pellter,
'O Dduw ein Creawdwr, rho nerth.'

Daeth diwedd y daith yn agosach,
llond lle o lawenydd a gaed
gan gerdded ar ddiwedd y noson
ar dywod y traeth yn San Ffraed.

**TREFN OEDFAON**

Dydd Sul, 7fed Awst *
Bore Coffi Ratifa - 11.00
Oedfa gymun - 11.20

Dydd Sul, 3ydd Medi
Oedfa Bregeth - 1030

Dydd Sul, 10fed Medi
Bore Coffi Ratifa - 10.00
OEDFA GYMUN - 10.30

Dydd Sul, 17eg Medi
Oedfa Bregeth - 1030

# Ar drywydd Peter Williams 1723- 1796



Gweinidogion y Gymdeithas ar eu pererindod

Eleni ar ddiwrnod hafaidd braf cynhaliodd Cymdeithas Gweinidogion Bro Preseli ein pererindod blynyddol ar ddydd Mawrth y 13eg o Fehefin.Dan arweiniad y Parchedig Tom Defis, trefnwyd y bererindod i ddilyn hanes yr enwog Peter Williams, yr esboniwr ac un o arweinwyr cynnar y Methodistiaid, ond un a gafodd yn gywilyddus ei ddiarddel gan y corff Methodistaidd yn Sasiwn Llandeilo Fawr yn 1791. Fe'i diarddelwyd am arddel syniadau Sabelaidd yn y Beiblau gydag esboniad a gyhoeddodd. Cam gwael oedd hyn yn hanes y Methodistiaid ac mae cydymdeimlad helaeth wedi bod tuag at Peter Williams byth ers hynny. Nid oes fawr o barch bellach i agwedd haerllug a balch Nathaniel Rowland chwaraeodd ran flaenllaw yn y diarddeliad, ond mae cryn gydsyniad gyda geiriau ei dad Daniel Rowland, ddywedodd wrth ei fab oherwydd ei gondemniad o Peter Williams mewn sasiwn flaenorol 'Nat, Nat, ti a gondemniaist dy well.'

Yn gydymaith gyda ni ar y daith yr oedd y brawd Eurig Davies, Pontardawe, sy'n Gadeirydd Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin ac un sydd wedi ymchwilio a thrwytho ei hun yn helaeth yn hanes Peter Williams. Ar hyd y daith bu'n rhannu gyda ni hanesion difyr am Peter Williams yn ei gysylltiadau â'r mannau yr ymwelsom â hwy.  Mawr oedd ein diolch a'n dyled iddo am yr arlwy gyfoethog gawsom ganddo wrth glywed yr hanes.

Cychwynasom y daith, er hwylustod parcio, gydag ymweliad i Erddi a Chanolfan Hywel Dda yn Hendygwyn ac wedi cael paned yno, aethom ymlaen mewn bws mini i gapel Heol Ddŵr yng Nhaerfyrddin, capel, ar ei draul ei hun, a adeiladwyd gan Peter Williams yn 1771. Roedd wedi prynu tŷ ar les yn Heol Ddŵr yn 1765 er mwyn cael bod yn agos i argraffdy John Ross, argraffydd ei gyhoeddiadau. Tra yn y capel cawsom weld fwy nag un copi cynnar o '*Beibl Peter Williams*' fel caiff ei adnabod. Ymlaen wedyn i'r fynwent yn Eglwys Llandyfaelog, a'r pentref lle bu Peter Williams yn preswylio yn ei gartref yno yn Gellilednais, gan weld ei garreg fedd ac arni y geiriau o Salm 55:12-14, yn fynegiant o'i siom a'r chwerwder a brofodd wrth gal ei ddiarddel gan ei gymrodyr.



Cawsom doriad yn Nhalacharn gan fwynhau lluniaeth yno wrth droed y castell a gerllaw y mynediad i gartref y bardd Dylan Thomas, a mwynhau wedyn yr hufen iâ! Ymlaen wedyn i Gapel Coffa Peter Williams ym Mhentywyn, agorwyd adeg canmlwyddiant ei farwolaeth, yn 1896, a chael ein croesawu yno gan y brawd John Thomas, aelod o'r eglwys gyfredol sy'n cyfarfod yno, wnaeth rannu gyda ni peth o hanes yr eglwys sy'n dal i addoli heddiw yn y capel bach. Braf oedd cael sylwi ar yr hysbyfwrdd newydd sydd wedi ei osod y tu allan gydag ychydig o'r hanes a chôd QR i ymwelwyr fedru cael hyd i ragor o hanes am Peter Williams. Aethom ymlaen wedyn yn y cyffuniau i Eglwys Gymyn, eglwys hynafol lle cafodd Peter Williams ei ordeinio'n gurad, ond ei droi allan yn fuan oherwydd bod ei Fethodistiaeth yn wrthun i'r offeiriad absennol ac hefyd Egob Tyddewi ar y pryd. Cyhuddid ef o weddïo o'r frest a hwyrach esgeuluso defnyddio'r Llyfr Gweddi, o bregethu y pechod gwreiddiol, cyfiawnhad trwy ffydd a'r angenrheidrwydd o brofi yr ail-enedigaeth. Am yr un rhesymau, wedi hynny, cafodd ei droi allan o ddau o guradiaethau pellach cyn iddo fwrw ei goelbren yn llwyr gyda'r Methodistiaid. Aethom ymlaen wedyn gan ymweld ag Eglwys Sant Teilo yn Llanddowror gan weld cofebau i Griffith Jones, sylfaenydd yr ysgolion cylchynol sefydlwyd drwyddo ledled Cymru a gweld cofebau yn yr eglwys i Griffith Jones ac i Fadam Bridget Bevan, prif noddwr ei ysgolion. Ni fyddai Peter Williams wedi medru cyhoeddi ei Feibl gyda'r esboniad dylanwadol oni bai am arloesi Griffith Jones a wnaeth y Cymry Cymraeg yn ystod y ddeunawfed ganrif yn bobl ymhlith y mwyaf llythrennog, yn eu hiaith, trwy'r byd yn gyfan ar y pryd.

Daeth y diwrnod i'w derfyn trwy gymdeithasu wrth y byrddau a chael swper rhagorol yn Nhafarn y Corvus yn San Clêr. Roeddem wedi cynnal ein cyfarfod busnes o flaen y swper. Ar gyfer tymor 2023-24 etholasom y Parchedig Catrin Ann Thomas yn Gadeirydd a mawr oedd ein diolch i'r Parchedig Ken Thomas a fu'n ein llywio mor ddeheuig gyda'i bersonoliaeth braf, gydol y tymor oedd yn dirwyn i ben, tymor 2022-23. Yn ein pererindota, cawsom ar ei hyd ddiwrnod braf ac adeiladol gan fwynhau cwmnïaeth serchog ymhlith ein gilydd. Bydd croeso i weinidogion newydd ymuno gyda ni, pan fyddwn wedi'r haf yn ail gyfarfod ar yr ail ddydd Mawrth pob mis yng Nghaffi Beca yn Efailwen.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sul 2ail Gorffennaf** | ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS | **£495** | **5 Diwrnod** |
| **Gwener 7fed Gorffennaf** | SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT | **£360** | **3 Diwrnod** |
| **Llun 10fed Gorffennaf** | O AMGYLCH FFINIAU CYMRU (Welsh Borders) | **£520** | **5 Diwrnod** |
| **Iau 13eg Gorffennaf** | TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS | **£290** | **3 Diwrnod** |
| **Gwener 28ain Gorffennaf** | CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA | **£995** | **8 Diwrnod** |
| **SUL 30ain Gorffennaf** | CAMBRIDGE | **£525** | **5 Diwrnod** |
| **Sul 6ed Awst** | "PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR | **£495** | **5 Diwrnod** |
| **Gwener 11fed Awst** | GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE | **£255** | **3 Diwrnod** |
| **Llun 14eg Awst** | DURHAM A BEAMISH | **£515** | **5 Diwrnod** |
| **Llun 21ain Awst** | WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY | **£535** | **5 Diwrnod** |
| **Mercher 23ain AWST** | SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH | **£395** | **4 Diwrnod** |
| **Llun 28ain Awst** | TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD | **£530** | **5 Diwrnod** |
| **Gwener 8fed Medi** | GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY | **£375** | **4 Diwrnod** |
| **Llun 11fed Medi** | NORFOLK - SANDRINGHAM | **£565** | **5 Diwrnod** |
| **Sul 17eg Medi** | Dewch i ddarganfod cyfrinachau DUMFRIES a GALLOWAY | **£520** | **5 Diwrnod** |
| **Sul 24ain Medi** | ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON | **£675** | **6 Diwrnod** |
| **Llun 25ain Medi** | GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL | **£360** | **5 Diwrnod** |
| **Sul 1af Hydref** | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | **£535** | **6 Diwrnod** |
| **Gwener 6ed Hydref** | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | **£355** | **4 Diwrnod** |
| **Gwener 13eg Hydref** | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | **£410** | **4 Diwrnod** |
| **Gwener 20fed Hydref** | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | **£410** | **4 Diwrnod** |
| **Gwener 27ain Hydref** | WESTON SUPER MARE | **£335** | **4 Diwrnod** |
| **Gwener 3ydd Tachwedd** | TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY (Wye Valley) | **£345** | **4 Diwrnod** |
| **Gwener 10fed Tachwedd** | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | **£295** | **4 Diwrnod** |
| **Llun 13eg Tachwedd** | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | **£515** | **5 Diwrnod** |
| **Gwener 17eg Tachwedd** | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | **£245** | **3 Diwrnod** |
| **Sul 19eg Tachwedd** | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | **£510** | **6 Diwrnod** |
| **Llun 27ain Tachwedd** | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | **£440** | **5 Diwrnod** |
| **Gwener 1af Rhagfyr** | Ymunwch â Santa ar TREN Y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | **£335** | **4 Diwrnod** |
| **Sul 3ydd Rhagfyr** | Taith i CERNYW, St Agnes, Penzance a Falmouth | **£330** | **4 Diwrnod** |
| **Llun 4ydd Rhagfyr** | CRACER NADOLIG CERNYWEG YN LOOE | **£410** | **5 Diwrnod** |
| **Gwener 8fed Rhagfyr** | PENWYTHNOS PARATOI AR GYFER Y NADOLIG YN LLUNDAIN | **£290** | **3 Diwrnod** |
| **Sadwrn 30ain Rhagfyr** | DATHLU'r FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | **£490** | **4 Diwrnod** |

## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwener 12fed Ionawr** | Penwythnos yn yr hên Ffefryn - WESTON SUPER MARE | **£280** | **4 Diwrnod** |
| **Gwener 19eg Ionawr** | Aduniad Cwsmeriaid a Ffrindie Bysiau Cwm Tâf yn TORQUAY | **£260** | **4 Diwrnod** |
| **Iau 22ain Chwefror** | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru -Gwesty'r Talbot, Stillorgan | **£465** | **4 Diwrnod** |
| **Iau 22ain Chwefror** | Gêm Rygbi Iwerddon v Cymru - Gwesty'r Bonnington, Dulun | **£465** | **4 Diwrnod** |
| **Iau 22ain Chwefror** | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru - ENNISCORTHY | **£385** | **4 Diwrnod** |
| **Gwener 1af Mawrth** | Ymunwch â Clive a'r criw i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | **I ddod** | **3 Diwrnod** |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**




CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Mabolgampau'r Ysgol**

Braf oedd cael cynnal ein mabolgampau Ysgol ar Ddydd Iau, 15fed o Fehefin a bendigedig oedd cael cwmni rhieni a ffrindiau yr ysgol. Da iawn i bob plentyn am gystadlu mor dda a llongyfarchiadau enfawr i Tomos Nicholas ac Holly Phillips am ennill y tlysau ac i dîm Robin am ennill y fwyaf o bwyntiau ar y diwrnod.







**Ffair Haf**

Diolch o waelod calon i swyddogion Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Brynconin am drefnu Ffair Haf a gynhaliwyd ar ôl ein mabolgampau. Diolch hefyd i bawb oedd wedi cynorthwyo, cyfrannu a chefnogi mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y Ffair. Braf oedd gweld nifer o rieni a ffrindiau yr ysgol yn cymdeithasu a mwynhau. Roedd y plant wedi bod yn brysur hefyd yn paratoi diodydd ysgawen a choginio sgoniau gyda hufen a jam. Llwyddwyd i godi tua £800 a byddwn fel ysgol yn defnyddio'r arian i ddatblygu ein ardaloedd allannol.



**Blwyddyn 4 a 5 – Ffair Fwyd ar Faes y Sioe, Hwlffordd**

Cafodd plant o Flynyddoedd 4 a 5 amser da ar fore Mawrth, 20fed o Fehefin wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithdy am fwyd ar faes Sioe Hwlffordd. Cafwyd cyfle i ddysgu am gaws, llaeth a chigoedd gwahanol.

**Mabolgampau Ffederasiwn**

Penderfynodd Senedd Ysgol Brynconin ac Ysgol Maenclochog gynnal bore o Fabolgampau fel Ffederasiwn. Cafwyd bore o hwyl wrth i Ysgol Brynconin ac Ysgol Maenclochog ddod at ei gilydd ar ddydd Gwener, 23ain o Fehefin. Rhoddwyd y plant mewn i dri tîm; Coch, Melyn a Gwyrddlas a chafwyd hwyl yn tynnu y rhaff, rasys

BFF

Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
- Bwyd anifeiliaid
- Ffensio
- Nwyddau ar gyfer y fferm

Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679




Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

wŷ a llwy a rasys rhedeg. Rhoddwyd pwyslais ar yr elfen o hwyl a chyfle i gymdeithasu.



**Gala Nofio** Da iawn i bawb a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Gala Nofio Ysgol Brynconin ar fore Iau, 29ain o Fehefin ym Mhwll Nofio Crymych. Diolch i'r aelodau staff am drefnu y gweithgaredd arbennig hon, yn arbennig i Mrs S Richards am roi ei hamser i helpu ni gynnal y gystadleuaeth. Da iawn i bawb am gystadlu a llongyfarchiadau enfawr i Dŷ Robin am ennill Tlws Mrs Enfys Howells am y tŷ a enillodd y fwyaf o bwyntiau.

**Diwrnod y Llyfr**

Fe ddathlon ni Diwrnod y Llyfr ar ddydd Gwener, 30ain o Fehefin gan na ddathlon ni y diwrnod nôl ym mis Mawrth. Braf oedd gweld plant Ysgol Brynconin wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau llyfr. Cafwyd hwyl yn ystod y dydd wrth i blant yr ysgol gwblhau gweithgareddau yn ymwneud â darllen.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau enfawr i Magi John am ennill y wobr gyntaf am lefaru yng Ngŵyl Fawr Aberteifi. Da iawn ti.

**Canu gyda Mei Gwynedd**

Braf oedd gweld plant Ysgol Brynconin yn rhan o fideo cerddoriaeth gyda Mei Gwynedd a drefnwyd ar y cyd gyda Menter Iaith Sir Benfro ac Awdurdod Addysg Cyngor Sir Penfro. Cyfansoddwyd cân ar y cyd gyda phlant Sir Benfro a Mei Gwynedd yn dathlu bywyd ac hanes y Sir a chafodd plant Ysgol Brynconin y cyfle i fod yn rhan o'r ffilm yn canu 'Ni'n caru Sir Benfro.' Roedd y plant wedi gwisgo fel Waldo Williams a Dewi Sant yn y fideo cerddoriaeth. Mae modd gweld y fideo gwych yma ar YouTube a thudalen Facebook Cymraeg Sir Benfro.




# YSGOL BRO BRYNACH

**Cerdded trwy'r Beibl**

Cafodd dosbarth Cynin y cyfle i dderbyn sesiynau gan gwmni Cerdded Trwy'r Beibl. Roedd y cwmni yn addysgu amryw o straeon o'r Beibl, mwynhaodd y plant ymgysylltu â'r straeon a gyflwynir iddyn nhw wrth ymuno mewn perfformiadau byr o'r storiau.

**Ymweliad pontio i Ddyffryn Taf**

Ar y 15fed o Fehefin cawson ein gwahodd i fynd ar ymweliad pontio i Ysgol Ddyffryn Taf. Cafwyd y cyfle i fynd am daith o amgylch maes yr ysgol gyda Mrs Chucas a'r mentoriaid. Ar ôl y daith fe wnaeth y disgyblion greu rap o ansawdd da am Ysgol Dyffryn Taf.

**Gŵyl Tag Rygbi**

Bu disgyblion dosbarth Cynin yn cymryd rhan mewn Gŵyl tag rygbi yn Ysgol Dyffryn Taf ar ddydd Gwener y 23ain o Fehefin. Gwnaeth y ddau dîm chwarae'n wych gan ennill sawl gêm ac yn sgorio nifer o geisiau o safon uchel.

**Sioe Jemima**

Ein thema y tymor yma yw 'Dewch i ddathlu'. Yn ystod y tymor mae disgyblion CA2 wedi cael y cyfle i ddysgu am amryw o enwogion ac arwyr Cymru, fel Merched Beca. Ar ddydd Iau y 29ain o Fehefin cafodd Cyfnod Allweddol 2 y cyfle i fynd i weld sioe Jemima gan Arad Goch yn y Lyric yng Nghaerfyrddin. Ar ôl dychwelyd i'r ysgol maent wedi bod yn dysgu llawer mwy amdani ac ymgymryd mewn amryw o dasgau gwahanol.

**Trip Dysgu Sylfaen**

Cafodd disgyblion y Dysgu Sylfaen diwrnod i'r brenin ar ddydd Mercher y 5ed o Orffennaf ar drip i Clerkenhill. Cafwyd llawer o hwyl yn chwarae yn yr amryw ardaloedd ac hefyd gweld anifeiliaid y fferm. Cafwyd picnic blasus amser cinio cyn mynd nôl i grwydro'r fferm eto.

SIOP Y FRENNI
Crymych
Nisa
Siop a Gorsaf Betrol
Gwasanaeth rhagorol a phrisiau cystadleuol bob amser
Ffôn: 01239 832900

Huw Owens
Saer Coed
Dan y Coed
Glandy Cross
Efailwen
Clunderwen
SA66 7XA
Ffôn: 01994 419315
Symudol: 07974 801672
Gwaith To • Ceginau • Ffenestri • Gwaith atgyweirio...a.y.y.b.

SHWLDIWMWL.CYMRU
CRYSAU WEDI ARGRAFFU A SIOP AR-LEIN
sales@shwldimwl.cymru 01994 448626



Trip dysgu sylfaen

**Trip Cyfnod Allweddol 2**



Mwynhaodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 eu trip i Barc Maenor Scolton.  Buont am dro yn archwilio'r 60 erw o barc a choetir.

**Gweithdy Gwenyn**



Diolch i Mr Ben Anthony, Fferm Frowen am ddod mewn i siarad gyda disgyblion dosbarth Cynin a Gronw am gadw gwenyn. Cafwyd bore diddorol, llawn gwybodaeth ac ysbrydoledig.

**Diwrnodau pontio**

Yn ystod y tymor mae disgyblion blwyddyn 6 wedi cael y cyfle i ymweld â'u hysgolion Uwchradd sef Ysgol Bro Myrddin, Ysgol Dyffryn Taf ac Ysgol Bro Preseli. Dymunwn pob hwyl iddynt yn eu hysgolion newydd ym mis Medi.

**Diwedd y flwyddyn**

Hoffwn fel ysgol ddiolch i bawb sydd wedi helpu a chefnogi'r ysgol mewn unrhyw ffordd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ffodus iawn i gael cymuned mor gefnogol. Dymunwn yn dda i'r holl ddisgyblion sydd yn symud ymlaen i ysgolion newydd a gobeithio fydd pawb yn cael amser da dros wyliau'r haf.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Mabolgampau**

Hyfryd oedd gallu cynnal ein mabolgampau ar gyfer Blynyddoedd Meithrin hyd at Flwyddyn 4 gyda'r haul yn gwenu'n braf. Diolch i'r holl rieni a ffrindiau'r Ysgol a ddaeth i gefnogi. Bydd cyfle Blwyddyn 5 a 6 cyn hir. Croeswn ein bysedd am dywydd sych!

**Chwaraeon**



**Ymwelwyr**

Croesawyd Kristen sef nyrs yr ysgol atom i siarad â disgyblion Blwyddyn 6 am dyfu i fyny.
Croesawyd rhieni a phlant newydd y dosbarth Meithrin atom ar gyfer prynhawn agored.
Cafodd y plant lleiaf fore hwylus dros ben wrth i Martyn Geraint ymweld â'r ysgol i ddifyrru dosbarthiadau Beca, Dewi a Non fu'n mwynhau ymuno yn y canu a'r miri.
Daeth PC Cath atom i siarad a dysgwyr Blwyddyn 4 a 6 am beryglon dieithriaid.

**Ymweliadau**





Bu nifer o'r dosbarthiadau yn mwynhau tripiau amrywiol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Aeth Dosbarthiadau Olwen, Rhiannon, Hywel, Gwenllian, Beca ac Arthur i Barc Manor fel rhan o'u gwaith thema ar greaduriaid Botswana.
Aeth dosbarthiadau Pwyll, Myrddin, Culhwch a Branwen i'r Gerddi Botaneg fel rhan o'u thema 'Ein Byd Gwyrdd'.

**Proms Sir Gâr**
Bu'r dysgwyr a fu'n rhan o Gôr y Sir ar gyfer yr Eisteddfod yn perfformio yng nghyngerdd Proms Sir Gâr yn Theatr y Ffwrnes yn Llanelli. Bu rhai o offerynnwyr yr Ysgol hefyd yn perfformio yn y cyngherddau chwythbrennau, llinynnau a gitar.

**Pontio**
Trefnwyd diwrnodau pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 + 6 yn Nyffryn Tâf a Bro Myrddin. Mwynhaodd y plant y cyfle i gyfarfod ag athrawon a ffrindiau newydd.

**Hwyl Diwedd Tymor**
Bu dosbarthiadau Dewi, Beca ac Arthur yn dathlu diwedd eu gwaith thema drwy gael picnic 'sgods a sglods' yn yr awyr agored.

Sioe SanClêr
Am y tro cyntaf ers tro, llwyddwyd i gynnal Sioe SanClêr eleni. Bu nifer fawr o'r plant yn cystadlu yn y cystadlaethau gwaith cartref celf a llawysgrifen. Braf yw cyhoeddi fod yr Ysgol wedi ennill y darian am y nifer mwyaf o bwyntiau. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr.

**Gwyl Ganol Dre**
Bu disgyblion Blwyddyn 3,4 a 5 yn perfformio yn 'Gwyl Ganol Dre' yng Nghaerfyrddin. Diolch i Menter Iaith Sir Gâr am drefnu'r wyl ac am roi cyfle i'r disgyblion gael bod yn rhan ohoni.



**Ffarwelio**
Pob hwyl i'r 35 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni eleni. Diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad dros y blynyddoedd.

# YSGOL BANCYFELIN

**Clwb Cychod**




Cafwyd noson braf dros ben yng Nghlwb Cychod Tywi ar nos Wener, Mehefin 16eg lle trefnwyd noson gan aelodau'r Clwb Cychod dan ofal y Cynghorydd Carys Jones er mwyn codi arian tuag at gronfeydd gwersi nofio'r Ffederasiwn.
Roedd yn noson wych gydag arddangosfeydd gan gwn yr heddlu, y bad achub a gwylwyr y glannau ac amrywiol stondinau. Diolch i bawb a fu'n trefnu a chefnogi. Codwyd dros £2500.

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Ambiwlans Awyr**



Fel rhan o'u gwaith thema "I ffwrdd â ni", ymwelodd Dewi o Ambiwlans Awyr Cymru â Dosbarth y Llan, i sôn am ei waith a'r cerbydau sy'n cael eu defnyddio wrth achub bywydau.

**Mabolgampau'r Ysgol**



Cafwyd diwrnod hwyliog iawn ym mabolgampau'r ysgol eleni, gyda chystadlu brwd ac yna stondinau a ras peli a drefnwyd gan Gymdeithas Rieni'r Ysgol. Diolch i bawb a gefnogodd y diwrnod mewn unrhyw ffordd.

**Diwrnod yr Amgylchedd**

Bu disgyblion y Ffederasin yn dysgu am faterion amgylcheddol yn Ysgol Llansteffan ar ddiwedd Mehefin. Trefnwyd y diwrnod gan Laura ac Alison o "Caerfyrddin gyda'n gilydd" yn cael eu cynorthwyo gan gwmni Glasbren o Bancyfelin a "Cwm Arian Renewable Energy" Diwrnod i'w gofio'n wir.

**Yr Egin**

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â'r Egin i gymryd rhan mewn gweithdy lego. Diolch yn fawr i Lowri Siôn am drefnu'r diwrnod.




**Hyfforddiant Beicio**

Cwblhaodd disgyblion Blwyddyn 6 eu hyfforddiant Lefel 2 mewn beicio diogel yn ystod y mis. Da iawn chi!

**Gŵyl Canol Dre**

Yn ôl yr arfer bu disgyblion y Ffederasiwn yn diddanu'r gynulleidfa yng Ngŵyl Canol Dre, cyn mwynhau'r holl weithgareddau oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Ŵyl.

**Pob lwc**

Dymuniadau gorau i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn symud ymlaen i Ysgol Bro Myrddin eleni, ac i Miss Phoebe Morgan a fydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor er mwyn dilyn cwrs Ymarfer Dysgu a Mrs Carol Bowskill a fydd yn symud i weithio yn Ysgol Llangain.

# YSGOL BECA



Eleni, rydym fel ysgol wedi bod yn datblygu'r ardal allanol. Dros y misoedd diwethaf mae'r disgyblion wedi bod yn plannu ffrwythau a llysiau ac erbyn heddiw gwelir ffrwyth eu llafur yn yr ardd. Hoffwn ddiolch

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES



Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: **01239 612814 / 07765 034705**

i Mrs Raven am wireddu ein breuddwyd ac am weithio'n ddiwyd yn yr ardd gyda'r disgyblion. Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r gymuned a rhieni am eu cyfraniadau amrywiol sydd wedi cyfrannu at lwyddiant yr ardd. Edrychwn ymlaen i orffen yr ardd ar ôl gwyliau'r haf.

**Diwrnod Mabolgampau**





Ar ddydd Mercher yr 21ain o Fehefin cawsom ein diwrnod mabolgampau. Cafodd y disgyblion brynhawn hwylus yn cystadlu a braf oedd gweld pob disgybl yn cymryd rhan.

Llongyfarchiadau i Robin, Mason, Maisie, Celyn a Letti ar ennill mabolgampwyr y dydd. Diolch hefyd i'r Gymdeithas Rhieni a Ffrindiau am drefnu lluniaeth ysgafn yn dilyn y mabolgampau.

**Twrnament Rygbi yn Ysgol Dyffryn Taf**



Yn ddiweddar, buodd dosbarth Cwm Cerwyn yn cystadlu mewn twrnament Rygbi Tag yn Ysgol Dyffryn Taf. Cafodd y disgyblion ddiwrnod arbennig yn cystadlu yn erbyn ysgolion lleol. Diolch i'r ysgol am drefnu.

**Dathlu Penblwydd yr Ysgol yn 50**

Ar y 14eg o Orffennaf, fel ysgol buom yn dathlu ein penblwydd yn 50. Roedd yn noson i'w chofio, a cawsom lawer o sbri yng nghwmni cymuned yr ysgol. Cafodd pawb eu diddanu gan eitemau amrywiol gan ddisgyblion yr ysgol a thwmpath ddawns i ddilyn. Hoffwn ddiolch i'r Welsh Whisperer am ysgrifennu cân wreiddiol gyda'r disgyblion yn ystod y dydd ac am ein diddanu ar y noson. Hoffwn ddiolch i Oriel Odl am greu darn o gelf gwreiddiol i ni arddangos yn yr ysgol. Ac mae'r diolch olaf yn mynd Gymdeithas Rhieni a Ffrindau am eu holl gwaith trefnu a pharatoi.

**Ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6**

Hoffem fel ysgol ddymuno pob lwc i ddisgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt orffen eu cyfnod yn yr ysgol cynradd. Bydd Efan, Alfie, Fflur, Ben, Eli ac Euan yn dechrau pennod newydd ym mis Medi wrth iddynt fentro i Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Dyffryn Taf. Pob lwc i chi blant a chymerwch bob cyfle.

**Ffarwelio â Miss James a Miss Gwyther**

Eleni, rydym yn ffarwelio â Miss James a Miss Gwyther. Mae'r ddwy wedi gweithio'n ddiwyd fel athrawon yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyfrannu cymaint at fywyd yr ysgol. Hoffwn ddiolch i'r ddwy am eu gwaith caled a dymunwn bob hwyl iddynt am y dyfodol yn eu swyddi newydd.

**Ymddeoliad hapus i Mrs Thomas**

Mae'r amser wedi dod i ffarwelio â Mrs Thomas, sydd wedi bod yn ddisgybl ac athrawes yn Ysgol Beca. Mae Mrs Thomas wedi bod yn dysgu yn yr ysgol ers ugain mlynedd ac wedi ymroi yn llwyr i'w chyfnod yma fel athrawes. Hoffwn ddiolch yn enwedig iddi am ei ymroddiad cerddorol i'r ysgol, am ddysgu sawl cân ar gyfer Eisteddfodau a chyfarwyddo sawl sioe Nadolig doniol! Bydd y plant yn gweld eich eisiau. Hoffwn, ddymuno ymddeoliad hapus iddi a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.


**Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

## Taith Gerdded

Bore Dydd Sadwrn
16eg Medi 2023 am 10 yb

**Dechrau a gorffen yng Nghapel Trinity Llanboidy**

Yr elw i'w rannu rhwng:
Tir Dewi
Beiciau Gwaed
Meddygfa San Clêr

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus Aneurin yn 3 oed ar y 30ain o Orffennaf. Joia dy ddiwrnod, cariad mawr wrth Mami, Dadi, Luned, Mamgu a Datcu Colman House, Mamgu Bwlch a'r teulu i gyd.



Penblwydd Hapus i Beca Leeke o Hensol a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 8 oed ar Orffennaf 9fed. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd hapus iawn i Megan Rees, Tymawr, Crymych a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 8 oed ar Awst y 6ed. Cariad mawr wrth mam, dad, Gwen, Lleucu a'r teulu i gyd xx




Penblwydd Hapus iawn i Tomos, a ddathlodd ei benblwydd yn 3oed ar yr 17eg o Orffennaf. Llawer o gariad wrth Mam, Dad, dy frawd bach Celt, Dadcu Llandysilio, Nana a Dadcu Pantgwyn, a'r teulu i gyd. xx



Penblwydd Hapus i Glyn Biggs oedd yn 9 oed ar y 21ain o Orffennaf. Mae Glyn yn fab i Stuart a Meleri ac yn ŵyr i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach. Dyma fe yn y llun wedi bod yn pysgota am y tro cyntaf pan ar wyliau yn yr Alban yn ddiweddar. Dymuniadau gore iddo oddi wrth y teulu oll.



Pen-blwydd Hapus i Gwilym Huw yn 4 oed ar y 30ain o Orffennaf. Cariad mawr Mami, Dadi, Gruffudd Llewelyn a Mamgu Waunfach a'r teulu i gyd.










# Trên Tywod

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae Branwen wedi creu trên tywod penigamp ar draeth Aberawen ac wedi defnyddio deunyddiau naturiol i'w addurno.

**Fedrwch chi ddyfalu faint o'r canlynol ddefnyddiodd y frân wen: cregyn, cerrig glan môr, broc môr a gwymon**



**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/09/23**

**Ateb cystadleuaeth Steddfod Sir Gâr oedd LLANYMDDYFRI.**

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf** | | |
| 25 a 26 | Sioe Frehinol Cymru | 1 |
| **Awst** | | |
| Llun 7 | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | 6 |
| Gwe 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1 |
| **Medi** | | |
| Llun 11 | **Windsor a Gerddi Wisley** | 5 |
| Llun 18 | **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** | 5 |
| Llun 25 | **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** | 6 |
| **Hydref** | | |
| Sad 14 | **Stiwdio Warner, Llundain - Gwneud Harry Potter** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Castell Studley, Sir Warwick** | 5 |
| Mer 18 | *Daniel O'Donnell, NDS, Caerdydd* | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5 |
| **Tachwedd** | | |
| Sad 4 | **Carnifal Golau Guto Fowk, Bridgwater** | 2 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 21 | **Nadolig Ysblennydd Thursford** | 4 |
| Sad 25 | *Sioe Gerdd - Shrek, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Aladdin, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5 |
| **Ionawr 2024** | | |
| Mer 24 | *Sioe Ddawns - Giovanni Pernice, NDS* | 1 |
| **Chwefror 2024** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd - Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| Sad 10 | **Torquay** | 5 |
| Llun 26 | *Rick Astley, Caerdydd* | 1 |
| **Ebrill 2024** | | |
| Llun 15 | **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** | 5 |
| Gwe 26 | **Gwyl Corau Meibion Cymru, Neuadd Albert, Llundain** | 3 |
| **Mai 2024** | | |
| Iau 2 | **Ynysoedd Shetland, Royal Deeside a Pitlochry** | 9 |
| Sad 4 | *Sioe Gerdd Pretty Woman, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 13 | **Blodau Sir Norfolk** | 5 |
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5 |
| Mer 19 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |

**Llyfryn 2023 ar gael nawr!!**

**Manylion rhai teithiau 2024 ar lein nawr!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

**Premier**
**MAELFA**
**Siop y Pentref**
**Clunderwen**
Nwyddau o bob math
am brisiau cystadleuol
01437 563200

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO



Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL



01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

**Ken Davies a'i Fab**
*Cigyddion*
**Brynawelon**
**Crymych**
Ffôn: 01239 831978



**J. B. OWEN**
**LLOGI PEIRIANNAU**
*Golygfa*
*Llandissilio*
Ffôn: 01437 563693
07966 549623

**MASNACHWYR ADEILADU**
**DAVIES**
Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor



Heol yr Orsaf
Hendygwyn
Ffôn:
01994 240228

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
**Robert W. R. Morgan**
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Pel-droed Llanboidy

Tra bod tymor 2022-2023 wedi dod i ben, mae'n bryd paratoi ar gyfer tymor 2023-2024 gan obeithio y bydd yn dymor llwyddiannus i'r Clwb.

**Adran hŷn**: Unwaith eto bydd dau dîm gyda'r Clwb, gyda'r tîm cyntaf yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion a'r ail dîm yn chwarae yn nhrydedd Adran Ceredigion. Mae'r ymarferion "Pre-season" wedi dechrau nos Fawrth, 4ydd Gorffennaf yn Llanboidy ar gaeau Dandre. Bydd yr ymarferion pob nos Fawrth am 6.30yh. Croeso cynnes i chwaraewyr hen a newydd ymuno a ni ar gyfer y tymor. Bydd y tymor yn dechrau ganol mis Awst.

**Adran Iau:** Bellach rydym wedi dechrau ar ymarferion Adran iau'r Clwb, a hynny bob bore Sadwrn am 10yb yn Llanboidy. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oedd. Mae timau dan 6, dan 8, dan 10, dan 12 a 13-16 gyda ni.

*Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gemau/ymarferion - http://www.ceredigionleague.co.uk / neu gyfryngau cymdeithasol y Clwb.* *Rhodri Lewis*

# Cystadlaethau Tynnu Rhaff Cymru



Carfan Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy



Tîm cymysg Buddugol 2023

Ddechre Gorffennaf, cynhaliwyd cystadlaethau Tynnu Rhaff Cymru ar Gae Hafren, Llanidloes fel rhan o Ŵyl Rygbi Saith bob Ochr Heart of Wales. Teithiodd bechgyn Llanboidy i Lanidloes ar gyfer cystadlu yn y cystadlaethau i ddynion a'r tîm cymysg (gyda phedair o ferched Clwb Hermon). Cafwyd diwrnod llewyrchus iawn gyda'r bechgyn yn cipio tair medal aur a dwy arian. Cyflwynwyd Tarian Coffa Cyril Phillips i'r hyfforddwr, Kevin Phillips ar ddiwedd y dydd am ennill y nifer uchaf o bwyntiau. Estynnwn ein llongyfarchion i'r bechgyn i gyd ar sicrhau parhâd anrhydeddus i lwyddiant a hanes arbennig Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy.

Eleni, roedd un o'r garfan sef Ed Hartt yn dathlu pum mlynedd ar hugain o dynnu gyda Chlwb Llanboidy yng nghystadlaethau Cymru. Llongyfarchiade mawr iddo. Ymlaen i'r 25 nesaf, Ed!! *Dafydd Phillips*

# Clwb Criced Hendygwyn

Mae'r tymor wedi cyrraedd hanner ffordd erbyn hyn ac ar ôl tywydd braidd yn wlyb i ddechrau'r tymor cafwyd tywydd poeth iawn ar ddiwedd Mai a thrwy Mehefin. Mae'r clwb yn dal i droi allan tri tîm bob dydd Sadwrn yng nghyghrair Sir Benfro yn ogystal â thîm merched sydd yn chwarae bob nos Fawrth. Hefyd mae adran ieuenctid cryf gyda timau o dan 9 i fyny i dan 17.

Mae'r tîm cyntaf yn chwarae yn yr ail adran ac wedi ennill 8 o'r 10 gêm a chwaraewyd. Kevin Pearce sydd a mwyaf o rediadau gyda 438 a sgor uchaf o 98, gyda Jonathan Thomas yn ail gyda 365 o rediadau a sgor uchaf o 93. Yn y bowlio mae Conor Bowen wedi cipio 18 wiced a Cian Rees, sydd ond yn 14 oed, gyda 16 wiced. Yn y pumed adran mae'r ail dîm ac mae nhw wedi ennill 3 o'r 8 gêm maent wedi chwarae. Iwan Bevan yw'r prif sgoriwr gyda 276 o rediadau a sgor uchaf o 95 heb fod allan. Iwan hefyd sydd yn arwain y bowlio gyda 10 wiced a'r capten Gethin Benjamin yn ail gyda 9 wiced. Mae'r trydydd tîm yn y chweched adran a gan amlaf yn cynnwys nifer o'r ieuenctid o dan gapteniaeth Sion Benjamin. Llwyddwyd i ennill 2 o'r 5 gêm a chwaraewyd. Aelod o'r trydydd tîm sef Ben Jones sydd a'r sgor uchaf hyd yn hyn wrth iddo lwyddo i sgorio 100 yn erbyn Cresselly.
Yn y gemau cwpan, colli wnaeth y tîm cyntaf yng Nghwpan D.R.Morris i Arberth, ond yn y prif gwpan sef yr Harrison Allen, curwyd St Ishmaels o'r adran gyntaf cyn colli i Carew. Yn y cwpan i ail dimoedd cafwyd gêm hynod o gyffrous yn erbyn Lawrenny gyda'r ddau dîm yn sgorio 170. Roedd hyn yn golygu bowlio un pelawd yr un yn ychwanegol gyda Hendygwyn yn ennill o 12 rhediad i 8. Yn yr ail rownd curwyd Doc Penfro gyda'r capten Gethin Benjamin yn cipio 3 wiced yn y belawd cyntaf.

Yn anffodus mae tîm y merched yn cael hi'n anodd i gael digon o chwaraewyr ar hyn o bryd ond maent wedi chwarae 5 gêm yn Adran Gyntaf Sir Benfro gan ennill 2.

Mae'r timau iau i gyd yn chwarae yn gyson ac mae yn braf iawn gweld cymaint o blant yn ymarfer bob nos Iau. Mae'r tîm dan 17 wedi llwyddo i gyrraedd y rownd gyn derfynol yn y cwpan. Diolch i'r hyfforddwyr am roi o'u amser ac i'r rhieni am eu cefnogaeth. *Trefor Evans*



# CHWARAEON




## Clwb Rygbi San Cler



*Jac Howells (capten y tim cyntaf), enillydd tlws chwaraewr y flwyddyn, chwaraewr y chwaraewyr a sgoriwr fwyaf o geisiau yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Mike Ruddock.*

Buom yn dathlu ein cinio blynyddol yng Ngwesty'r Ivy Bush, Caerfyrddin ar Mehefin 17eg. Croesawom ein gwesteion Mr a Mrs Mike Ruddock, Mr a Mrs Delme Thomas, Mr a Mrs Alan Reynolds a'n MC am y noson Luke Ingleton. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni ein gilydd ac araith wych gan Mike Ruddock. Cyflwynwyd gwobrau yn dilyn tymor llwyddiannus iawn i'r clwb gyda'r tim cyntaf yn ennill dyrchafiad i Adran 2 y Gorllewin, cyrraedd rownd gyn derfynol y Cwpan Cenedlaethol a rownd derfynol Cwpan Gorllewin Cymru.

Cipiodd ein capten, Jac Howells, dlysau Chwaraewr y Flwyddyn, Chwaraewr y Chwaraewyr a sgoriwr y rhif mwyaf o geisiau - llongyfarchiadau mawr iddo. Aeth gwobr y chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf i Brandon Davies a Thomas Mason gyda gwobr chwaraewr y cefnogwyr yn cael ei ddyfarnu i Dafydd Waters a Thomas Mason. Cyflwynwyd tarian person clwb y flwyddyn i Steve Phillips. Enillodd Wendy (ein ffisio) wobr gwasanaeth hir, i ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed! Roedd ein hail dim hefyd wedi mwynhau eu hymddangosiad yn rownd derfynol Plât Llanelli a'r Cylch a chwaraewyd ym Mharc Y Scarlets. Rydym ni i gyd yn edrych ymlaen am egwyl fer cyn i ymarferion ar gyfer y tymor nesaf ddechrau ar Gorffennaf 11eg.

*Gwyndaf Williams*



*Thomas Mason a Brandon Davies yn ennill tlws chwaraewr wedi datblygu fwyaf (ar y cyd) yng nghwmni Delme Thomas, llywydd y clwb.*

## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Mae'r dynion wedi dechrau ymarfer yng nghwmni dau hyfforddwr newydd - Phil (Stretch) Morgan a Jonny Thomas. Byddant yn ymarfer bob nos Lun a nos Iau am 7 yh. ar Barc Llwyn Tŷ Gwyn. Rheolwr y tîm yw Martin Nicholas a'r capten eleni eto yw Benji Kirk.

Dyma restr y gemau sydd i ddod :-

**Awst**

11eg - Tîm datblygu adref erbyn Abergwaun 7.15yh
12fed - Athletic Castell Nedd (i'w gadarnhau)
19eg - Nantgaredig adref
26ain - Tim datblygu bant erbyn Dinbych y Pysgod 5.30yh

**Medi**

2il - Crwydriaid Llanelli (bant)
9fed - Penclawdd (adref )
16eg - Pontarddulais (bant)
30ain - Porth Tywyn (adref)

**Menywod**

Bydd y menywod yn dechrau ymarfer ar Nos Iau, Gorffennaf 20fed ar Barc Llwyn Tŷ Gwyn am 6 o'r gloch. Bydd Dafydd Cox, Ceirion Evans a Darren Rees yn hyfforddi'r tîm eleni. Does dim rhestr y gemau gyda ni eto. Cynhaliwyd noson hyfryd iawn yn y Clwb ar nos Sadwrn, Gorffennaf 8fed i ddathlu'r ffaith ein bod wedi ennill y Plat ac ennill pencampwraith y menywod.



Benji Kirk, capten: Phil Morgan, prif hyfforddwr: Martin Nicholas, rheolwr y tîm: Johnny Thomas, hyfforddwyr y cefnwyr.

*Suzanne Davies*